

Y LLOFFWR



PAPUR BRO
CYLCH DINEFWR

~~~  
RHIF 311 - 80c

~~~  
IONAWR/CHWEFROR 2010

~~~  
[ylloffwr@papurbro.org](mailto:ylloffwr@papurbro.org)



## SEREN BETHLEHEM YR HANES I GYD AR DUDALEN 3



*Lluniau : William Theophilus*





## Menter Bro Dinefwr



### Miri Nadolig 2009

Trefnodd Menter Bro Dinefwr ddau Firi Nadolig llwyddiannus iawn eleni eto. Cynhaliwyd un ar 28 Tachwedd yn Neuadd y Pensiynwyr, Rhydaman a'r llall ar 5 Rhagfyr yn Neuadd Llangadog. Daeth bron i 180 o blant a llawer o oedolion ynghyd i fwynhau'r ddau fore o hwyl yng nghwmni Crazy Clayton ac wrth gwrs i weld y dyn pwysig ei hunan, Siôn Corn!

Roedd y plant wrth eu boddau yn cael eu diddanu gan y diddanwr, gyda'r rhieni hefyd yn ymuno yn yr hwyl a'r sbri! Yn ogystal â'r sioe ac ymweliad gan Siôn Corn, roedd yna amrywiaeth mawr o stondinau ar gael i ddenu llygaid y cwsmer ac i brynu ambell anrheg Nadolig gwahanol.

Trefnwyd amryw o weithgareddau ar gyfer y plant yn ystod y bore, roedd y rhain yn cynnwys cornel golff, paentio wynebau a thwba lwcus. Diolch i bawb a gefnogodd y boreau hwylus yma a braf yw gweld y ddau ddigwyddiad yn tyfu'n flynyddol. Edrychwn ymlaen nawr at Firi'r Nadolig 2010.



### Cwmni Sbarc

Y mae Sbarc, sef Cwmni Perfformio i blant ardal y Tywi yn ail ddechrau ar 18 Ionawr 2010 ac fe fydd yn cael ei gynnal yn wythnosol adeg tymor ysgol yn Neuadd Llanwrda rhwng 4.30pm a 6.00pm.

Bydd y Cynllun yn cynnig cyfle i blant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i ddatblygu eu sgiliau canu, actio a dawnio ac i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau celfyddydol a chymdeithasol gan anelu at gyflwyno sioe gerdd yn yr haf.

Fe fydd y cynllun yn cael ei redeg drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd y plant yn cael eu hyfforddi gan dîm profiadol. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lynette Thomas ar (01558) 825336.

### Ar y Fwydlen



Bu cystadleuaeth 'Ar y Fwydlen' yn ymweld â Neuadd Llangadog nos Lun 23 Tachwedd pan fu cystadlu brwd rhwng Clwb Gwawr Llangadog (*gweler y llun uchod*) a Chlwb Ffermwyr Ifanc Llangadog (*gweler y llun isod*). Cafwyd arddangosiad gan y cogydd Anthony Evans ar sut i goginio ffesant a thasg y ddau dîm oedd coginio pryd o fwyd tebyg i'r hyn yr oedd Anthony wedi ei baratoi. Yn fuddugol ar y noson oedd y Clwb Gwawr. Bydd y drydedd noson yn y gystadleuaeth yn digwydd ar ddiwedd y mis yng Nghlwb Rygbi Llangadog. Croeso cynnes i bawb. Mae'r gystadleuaeth yn agored i fudiadau ardal Dinefwr ac os hoffech gymryd rhan cysylltwch â Non Gwilym ym Menter Bro Dinefwr ar (01558) 825336.



### Coginio

Yn ystod tymor y gaeaf bu Linda Owen, Swyddog Gwasanaethau Plant Menter Bro Dinefwr yn Ysgol Brechfa yn dysgu sgiliau coginio i'r plant. Roedd y plant wedi dysgu sut i osod bwrdd ar gyfer pryd o fwyd, coginio pizza's, pasta a thiwna, picau ar y maen a salad ffrwythau ffres. Ar diwedd y chwech wythnos roedd y plant wedi gwahodd rhiant neu warcheidwad mewn i'r ysgol i flasur bwyd a weinwyd gan y plant. Daeth tua deg rhiant i mewn i'r ysgol a braf oedd gweld y plant yn ymddwyn mor gwrtais a phroffesiynol.

### \*\*\* NEGES BWYSIG \*\*\*

Gellir derbyn Y Lloffwr  
mewn 3 ffordd eto yn 2010!

- (1) 10 rhifyn i'ch drws drwy ddosbarthwr lleol am £8 y flwyddyn
- (2) tanysgrifio am 10 rhifyn drwy'r post am £15 y flwyddyn
- (3) prynu'r Lloffwr yn fisol yn eich siop leol am 80c

I sicrhau eich copi argymhellir opsiwn 1 neu 2 uchod

Am fanylion pellach cysylltwch â'r  
Swyddog Tanysgrifio, Peter Harries  
ar (01558) 823075



# Seren Bethlehem

Ym mis Medi, gosododd Heledd Cynwal her anferth i gymuned Bethlehem a'r ardaloedd cyfagos i lwyfannu sioe Nadolig a fyddai'n cael ei darlledu ar S4C ar Noswyl Nadolig. Tri mis yn union oedd ganddynt i sgriptio, castio, cyfarwyddo, adeiladu set, creu gwisgoedd, sefydlu corau, dod o hyd i leoliad addas, marchnata'r digwyddiad, yn ogystal â chwilio am faban Iesu. Felly aethpwyd ati yn union i

drefnu pwyllgorau o bwyllgor cerdd i bwyllgor cynllunio, pwyllgor drama a phwyllgor marchnata.

Trefnwyd clyweliadau yng Nghapel Bethlehem lle daeth criw o blant, pobl ifanc ac oedolion i berfformio ac amlygu eu talentau. Rhoddwyd y dasg anferthol i Lowri Davies a Nia Clwyd i fynd ati i ysgrifennu'r sioe gan chwilio am gerddoriaeth addas i fynd law yn llaw â'r sgript. Aeth criw arall ati, dan law gadarn Cadeirydd y Pwyllgor Canolog, Arwyn Evans, i chwilio am leoliad addas. Ymwelwyd â sawl sied ac ysgubor ond trwy bleidlais gudd, penderfynwyd ar hen sied y *Co-op* yn Llangadog neu Lety Cadog fel y'i galwyd o hynny ymlaen. Diolch i'r perchennog, Hefin Roberts, a'i dîm o weithwyr am eu caredigrwydd a'u cymorth. Daeth criw ynghyd i farchnata'r digwyddiad enfawr gyda David Dyer a Marylyn Haines Evans yn llywio'r pwyllgor. Lynne Jones oedd â'r her enfawr o greu set ar gyfer y sioe a chwilio am griw i'w gynorthwyo wrth adeiladu. Penodwyd pedair ysgrifenyddes er mwyn trefnu ac ateb i bob un o orchmynion y pwyllgorau sef Ann Richards, Angharad Rees, Catrin Davies a Marek Tomos ac un dyn doeth yng ngofal yr holl gyllideb sef Owain Gruffydd.

Ar ôl castio, ffurfio côr oedolion, a chôr plant, adeiladu set, casglu hysbysebion a chreu rhaglen, cyrhaeddodd y diwrnod mawr sef dydd Sul, 13 Ragfyr. Trefnwyd dau berfformiad, un yn y prynhawn a'r llall yn yr hwyr. Yn sicr, nid amharodd y criw teledu ar naws y perfformiadau ac yn sicr, llwyddwyd i greu naws Nadoligaidd arbennig yn Llety Cadog. Roedd y bugeiliaid, yn ôl yr arfer, wrth gwrs yn gwisgo lliain sychu llestri dros eu pen a'r angylion yn gwisgo eurgylch o dinsel – sioe gymunedol go iawn oedd hon!

Camodd dros 250 o oedolion a phlant ar lwyfan Llety Cadog yn ogystal â thri oen bach ac asyn (er y penderfynodd hwnnw fod un perfformiad yn ddigon iddo gan wrthod camu i'r llwyfan yn ystod y sioe nos!). Rhaid tynnu sylw at aelod ifanca'r sioe sef Leelah Seren a oedd ond yn rhyw dair wythnos oed, yn gwneud ei hymddangosid cyntaf ar lwyfan fel y baban Iesu.

Teithiodd tri dyn doeth ar bererindod o Nasareth yng Ngogledd Cymru i Fethlehem gan gyrraedd ar ddechrau'r sioe nos. Heriwyd y tri dyn tân o Landeilo, sef Eirwyn Moses, Emyr Bowyer ac Wyn Bunford, i deithio dros 100 o filltiroedd a llongyfarchiadau i'r tri ar gwblhau'r daith.

Un o brif amcanion y sioe oedd codi arian ar gyfer elusennau a rhaid nodi fod bron i £15,000 wedi'i godi ar gyfer pedair elusen sef Ambiwylans Awyr Cymru, Tŷ Hafan, Cronfa Les y Frigâd Dân a Choleg Elidyr. Yn sicr mae gan Ddyffryn Tywi dalent a gwelwyd prawf o hyn ar wyneb hapus a bodlon y gynulleidfa wrth iddynt adael Llety Cadog. Diolch i bawb sydd wedi helpu neu gyfrannu mewn unrhyw ffordd er mwyn sicrhau fod y sialens hon yn un llwyddiannus dros ben. Edrychwn ymlaen at her nesaf Heledd Cynwal neu beth am i ni roi her iddi hi y tro nesaf?!

(Gol.)







## ABERGORLECH



### Dawnsywyr yn camu i'r Canoldir

Mae'r tiwtor Holly Freeman wedi penderfynu mynd â'i dosbarth dawnsio bola ymhellach - felly aeth â'r dosbarth i'r Canoldir!

Cynhaliwyd ei dosbarth diweddaraf ymysg y planhigion Canoldirol yn y Tŷ Gwydr enfawr yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. (*Gweler llun ar dudalen 28.*)

Mae Holly'n teimlo fod y lleoliad newydd wedi bod yn ysbrydoliaeth i'w dosbarth o ddawnsywyr: "Roedd yn bleser pur i ddawnsio yn y tŷ gwydr un haen mwyaf yn y byd, ynghanol yr adar, y planhigion hyfryd a'r arogleuon persawrus."

Fel arfer, mae dosbarthiadau Holly yn cael eu cynnal mewn neuaddau cymunedol. Dywedodd Holly, 22, sy'n byw yn Abergorlech: "Mae'n braf cael ymweld â gwahanol leoliadau - yn enwedig pan eu bod mor wefreiddiol â hyn."

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno ag un o ddosbarthiadau Holly, gallwch gysylltu â hi drwy e-bost, sef [hollyfreeman21@hotmail.com](mailto:hollyfreeman21@hotmail.com)

## BETHLEHEM



### Colled enbyd

Gyda thristwch enfawr y clywyd am farwolaeth ddamweiniol Dafydd Wyn Bowen, chwech mlwydd oed, Fferm Pengoilan, Bethlehem ar 23 Rhagfyr. Dafydd oedd mab Gareth a Meryl Bowen a brawd hynaf Hywel a Rhydian. Yr oedd yn ddisgybl annwyl a hoffus dros ben yn Ysgol Gynradd Llangadog.


Bu'r angladd gyhoeddus yn Amlogsgfa Llanelli ar 4 Ionawr pan ddaeth tyrfa enfawr ynghyd.

Cydymdeimlir yn ddwys gyda'r teulu a'r cysylltiadau i gyd.

## BRECHFA



### Erthyglau Patrick



Braf croesawu cyhoeddiad llyfr arall sef *Brechfa and Beyond* gan gyn-reithor Brechfa y Parch. Patrick Thomas. Cyfrol o erthyglau difyr ac addysgiadol a geir yma sef yr hyn a gyfranodd yr awdur i'r cylchgrawn *Cambria* yn ystod y degawd ddiwethaf. Mae'r testunau yn y casgliad yn amrywio o seintiau Celtaidd i gymeriadau lleol megis Nancy

Caepandy a Twm Penpistyll, o'r bardd Dafydd ap Gwilym i'r emynyddes Ann Griffiths, i'r arwyr Owain Glyndwr a Llywelyn ap Gruffudd a hoffter yr awdur o'r iaith Gymraeg. Cyhoeddir *Brechfa and Beyond* gan Wasg Carreg Gwalch. Pris: £8.50.

## CAIO



### Dathliad

Llongyfarchiadau i Eirwyn a Gwyneth Morgan, Awely Cwm, Caio sydd wedi dathlu eu Priodas Aur ar 5 Rhagfyr. Dymuniadau gorau am iechyd da ac hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.

## CIL-Y-CWM



### Cydymdeilad

Estynnir cydymdeimlad diffuant â theulu'r diweddar Mr Iorweth Price, Penlan, Cil-y-cwm a fu farw trwy ddamwain sydyn cyn y Nadolig. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys San Mihangel, Cil-y-cwm ar ddydd Mercher, 30 Rhagfyr 2009 ac yr oedd yr Eglwys a'r pentref o dan ei sang wrth i bobl dalu teyrnged i'r cymeriad hynod hoffus hwn.

### Côr Cyswllt Cil-y-cwm

Bu'r côr allan ar nos Fercher, 23 Rhagfyr yn canu carolau o gwmpas pentrefi Cil-y-cwm a Rhandir-mwyn. Codwyd swm sylweddol o £415 a fydd yn cael ei gyflwyno i Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

## CRUGYBAR



### Gwasanaeth Carolau Mudiad C.Ff.I. Sir Gâr

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau Mudiad C.Ff.I. Sir Gâr yng Nghapel Crugybar ar nos Sul 13 Rhagfyr gyda'r capel dan ei sang. Roedd aelodau a chefnogwyr y Mudiad wedi teithio o bob cwr i ymuno yn y gwasanaeth hyfryd lle cydganwyd naw o garolau.

Fe wnaeth Owen Davies, Maesllanwrthwl, sef Cadeirydd y Sir, groesawu pawb i gapel y teulu a chyflwynwyd y carolau gan Elin Davies, Abernant, Louisa Standeven, Llanddarog, Virginia Jones, Hendygywn, Gwenno Jones, Capel Dewi, Llinos Jones, Llanarthne, Elin Childs, Llanfynydd, Iwan Thomas, Llannon, Emyr Beynon, San Ishmael ac Owen Lewis, San Cler.

Cafwyd eitemau hyfryd gan barti deulais Penybont o dan arweiniad medrus Sioned Page-Jones, parti merched Dyffryn Cothi, unawd gan Rhian Davies, Llanymddyfri, eitem offerynnol gan Grug Roberts a Sioned Evans San Pedr, Ceirios Davies, Dyffryn Tywi, aelodau Capel Iwan, Heledd a Meilyr Hughes, Cynwyl Elfed a Sara Mair a Carys Haf, Dyffryn Cothi.

Yn ogystal, cafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Gemma Harries, Dyffryn Tywi a Meryl Davies, Llanllwni. Cyflwynwyd y gweddïau gan Bethan Griffiths, Dyffryn Cothi ac Arwel Jones, Llandeilo.

Aelodau o glwb Dyffryn Cothi wnaeth y casgliad. Casglwyd £624 tuag at Cancr y Pancreas ac fe'i cyflwynir i Apêl Amser Justin. Cronfa yw hon sydd wedi ei sefydlu gan Shân Cothi, un o gyn-aelodau'r clwb. Diolch yn ogystal i Heulwen Evans o Fanc Barclays am gefnogi'r noson gyda'r cynllun £1 am £1.

Cafwyd anerchiad pwrpasol dros ben a neges bendant i bawb gan Weinidog y Capel, y Parch. Huw Roberts. Rhaid diolch yn gynnes iawn i Elfyn Davies am gyfeilio'n hyfryd - mae Elfyn bob amser yn barod ei gymwynas i'r Mudiad. Diolch hefyd i Rhian Jones a Sue Hughes am gynorthwyo gyda'r cyfeilio.

Dymuna'r Ffederasiwn ddiolch i holl swyddogion ac aelodau'r Capel am ganiatau i'r Mudiad i gynnal y gwasanaeth yn y Capel. Diolch arbennig hefyd i bawb a wnaeth baratoi lluniaeth hyfryd ar ôl y gwasanaeth.



## CWM-DU



### Diwrnod braf

Dan drefniant Hywel Jones, Ordawe aeth dwsin o berchnogion Cerdyn Cymru o Gwm-du a'r cylch ar daith rhad ar drên o Landeilo i'r Amwythig. Aethant ar linell hardd Calon Cymru gan fwynhau pryd o fwyd pedwar cwrs am £11 yng Ngwesty Shrewsbury sydd uwchlaw'r afon Hafren. Cawsant ddiwrnod bendigedig yn gwledda a siopa ac roeddent i gyd yn hynod ddiolchgar i griw tren Arriva Cymru a staff y gwesty. Trefnir taith gyffelyb eto ar Ddydd Sant Ffolant.

### Cinio Nadolig

Paratowyd cinio Nadolig i drigolion y pentref ar nos Wener, 11 Rhagfyr a daeth 28 o bobl i'r wledd o dwrci, llysiau a'r ychwanegiadau a'r pwddin Nadolig i ddilyn. Roedd yn noson hyfryd a chafodd pawb bleser wrth gymdeithasu â'i gilydd. Roedd y byrddau yn wledd i'r llygaid gyda'r addurniadau a'r canhwylau. Ar ddiwedd y noson diolchodd Goronwy Davies i Catrin James am baratoi'r cinio hyfryd ac i Judy, Elinor a Jo a fu'n cynorthwyo wrth y byrddau.

### Capel Providence

Cynhaliodd Capel Providence ei oedfa Nadolig ar ddydd Sul, 13 Rhagfyr a daeth llawer o ffrindiau i'w cefnogi. Eleni, newidiwyd ychydig ar y drefn trwy gynnal oedfa yn y bore a threfnu cinio yn nhafarn Cwm-du ar ôl yr oedfa. Paratowyd cino o ham a sglodion a phwddin i ddilyn gan Catrin gyda'r merched yn cynorthwyo yn y gegin a chafwyd amser hyfryd gan bawb.

### Capel Ebenezer

Eleni, penderfynodd aelodau capel Ebenezer gynnal eu cinio Nadolig yn nhafarn Cwm-du a chafwyd cinio hyfryd o dwrci wedi'i baratoi gan Catrin James a merched y capel. Roedd pawb wedi mwynhau cynnal y cinio yn lleol a chael noson gynnes a phleserus.

### Cardiau Nadolig

Dymuna Janet James ddiolch i bawb a gefnogodd elusen ARC (Cymdeithas Arthritis) trwy brynu cardiau Nadolig yn y dafarn cyn y Nadolig.

### Dr Clem Mitchell

Pleser yw llongyfarch Dr Clem Mitchell, Cwmcochied ar ei lwyddiant a dymunir yn dda iddo fel meddyg yn ninas Truro, Cernyw.

## CWRT HENRI

### Cymdeithasu a thrafod



Bu'r noson o gaws a gwin a gafwyd yn Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri ar 3 Rhagfyr yng nghwmni'r Cynghorydd Sir Rhys Davies a chynghorwyr cymunedol lleol yn gyfle i gymdeithasu a thrafod nifer o faterion sydd dan ofal y gwahanol gynghorau. Roedd y trefnwyr Lynda Evans a Linda Hughes yn hapus gyda'r ymateb ac yn barod i drefnu syrjeri eto yn y dyfodol.

### Cylch Meithrin

Rhoes plant Cylch Meithrin Cwrt Henri berfformiad o Stori'r Nadolig, a'r cymeriadau oedd : Mair - Isabelle Cooke, Joseff - Joseph Hood, Angel - Sara Williams, Bugeiliaid - Lydia Hood a Hollie Abel, Dynion Doeth - Luke Miller, Joseph Reardon a Samuel Thomas. Yn absennol oedd Mary-Anne Jones a Lowri Strudwick. Ymunodd plant Ysgol Gynradd Cwrt Henri hefyd gan ddifyrru rhieni, teulu a ffrindiau mewn bore cymdeithasol.



Pob lwc i Isabelle a fydd yn mynychu Ysgol Cwrt Henri ar ddechrau mis Ionawr.

## CWRT-Y-CADNO



### Cymdeithas y Capel

Iddechrau gweithgareddau tymor y gaeaf, aeth criw ar ymweliad â Gwasg Gomer, Llandysul lle cawsant eu tywys o amgylch y safle. Cafwyd hanes y wasg ac esboniad ar sut mae'r peiriannau yn gweithio. Roedd y cyfan yn dipyn o agoriad llygad. Gorffenwyd y noson gyda phryd o fwyd blasus yng Ngwesty'r Porth, Llandysul.

Ar 10 Tachwedd, bu Dr. Rowena Mathew (Davies), Troed-y-bryn yn dangos sleidiau a siarad am ei thaith yn Kyrgystan.

Yna ar 24 Tachwedd, cafwyd cwmni Cymdeithas Crugybar a ffrindiau, a daeth Dr. Felix Aubel i siarad ac i ddangos hen greiriau. Daeth rhai o'r bobl â phethau diddorol i'w dangos.



*Aelodau o Gymdeithas Cwrt-y-Cadno yn y cyfarfod.*

Richard Rees o Lanwrda oedd y siaradwr ar 8 Rhagfyr. Dangosodd sleidiau a rhoddodd wybodaeth ar sut y bu bron i Lundain ddwyn yr Afon Tywi dros gant o flynyddoedd yn ôl a bodd llawer o ardaloedd Cymru – hanes nad oes llawer yn gwybod amdano.

Cynhaliwyd y parti Nadolig ar nos Fawrth, 22 Rhagfyr. Cafwyd y wledd arferol, canwyd ychydig o garolau, ond methodd Siôn Corn â bod yn bresennol oherwydd y tywydd garw. Er hynny gofaldod fod anrhegion y plant wedi eu gadael yn y festri.

Oherwydd y rhew a'r eira bu'n rhaid canslo cwrdd Noswyl y Nadolig.

### Cleifion

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Sheila Thomas, Frongoch a Doris Davies, Llambled (Llandre gynt) sydd wedi bod yn anhwylyd ac yn yr ysbyty'n ddiweddar.

### Cydymdeimlad.

Cydymdeimlir â Bety Davies a'r teulu, Pantcoy ar golli priod a thad annwyl **Mr Tim Davies** yn ddiweddar.





## DRYSLWYN



Cynhaliwyd agoriad swyddogol mawreddog Siop Gymunedol Dryslwyn yng nghwmni yr actor amryddawn Emyr Wyn Evans, seren y rhaglen deledu Pobol y Cwm, mewn derbyniad ar 9 Ionawr.

Agorwyd siop y gymuned ar 3 Ebrill 2009 gyda chymorth benthyciad di-elw oddi wrth Loteri Sir Gaerfyrddin a rhoddion lu oddi wrth unigolion a Chynghorau yn yr ardal. Ers hynny gyda chefnogaeth y cyhoedd lleol, mae'r fenter wedi tyfu'n llewyrchus tu hwnt.

Mae'r gwaith helaeth o drawsnewid y siop a chyflenwi offer newydd gyda chymorth grant o Gynllun Mynediad i wasanethau adfywio gwledig Cyngor Sir Gaerfyrddin a gwaith caled nifer o wirfoddolwyr wedi ei gwblhau.

Mae hyn wedi galluogi'r pwyllgor gwaith i wireddu rhan helaeth o'r weledigaeth a dyheadau a leisiwyd gan y gymuned mewn holiadur y llynedd.

Mae'r siop bellach yn llwyddiant ysgubol – yn ganolfan llawn bwrwlwm sy'n gwerthu amrywiaeth helaeth o nwyddau a'r pwyslais ar y lleol a hefyd wrth gwrs, yn swyddfa bost mewn partneriaeth. Erbyn hyn mae'r datblygiad nesaf wedi'i gwblhau gyda thŷ te, canolfan reprograffeg gymunedol, cyfnewidfa lyfrau a gwê-gaffi (a noddwyd yn rhannol gan gynllun BT i'r gymuned).

## ESGAIRDAWE



### Perlau'r Pridd

Ar noson arbennig lansiwyd y llyfr sef dyddiaduron y ffermwr diwylliedig Defi Lango o bentref Esgairdawe. Yn y llyfr ceir cyfeiriadau manwl at yr hen ddull o ffermio a'r ffordd syml o fyw ynghyd â'r newidiadau mawr yn nulliau ffermio. Mae hefyd yn gofnod o brif ddigwyddiadau hanes Cymru o'r Ail Ryfel Byd i etholiadau cyffredinol, o eisteddfodau lleol i'r gemau rygbi rhyngwladol. Ceir rhai o'i gerddi fel bardd gwlad crefftus yn galw am drwsio'r teledu ar frys ac yn adrodd hanes troeon trwstan fel anghofio'r llyfr siec!

Mae'r llyfr ar werth am £7.99 mewn siopau lleol.



Noson Lansio 'Perlau'r Pridd - Dyddiaduron Defi Lango Esgairdawe' - y Parch. Goronwy Evans y golygydd a'i wraig Beti Evans, Lloyd Davies mab yng nghyfraith, Dr Hefin Jones nai Defi Lango a fu'n annerch ar y noson, Rachel Jones chwaer, Kevin Davies ŵyr, Llinos Davies merch Defi Lango a'r Parch. Huw Roberts a dderbyniodd gopi ar ran y capel.

## FELIN-GWM



### Priodas

Ar 5 Rhagfyr yn Eglwys Sant Ioan, Felin-gwm priodwyd Nicola Davies, 4 Maesyrewig, Felin-gwm Uchaf a Phillip Olsen o Tewksbury. Llongyfarchiadau iddynt a phob dymuniad da i'r dyfodol.

### Canolfan Felin-gwm

Yn y Ganolfan cynhaliwyd noson goffi lwyddiannus a agorwyd gan Llinos Davies, gynt o Llaindelyn a fynychodd yr hen ysgol. Cafwyd araith bwrsasol a llawer o hanes o'i dyddiau ysgol ganddi.



Hefyd yn y llun uchod, gwelir Brynmor Jones, y Cadeirydd; Morwena Rees (chwaer Llinos) a Mary Johnson, trefnydd y noson. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth.

Ar nos Sadwrn, 27 Chwefror cynhelir noson Cawl a Chân flynyddol y gymuned. Llywydd yr achlysur fydd y Parch. Philip Johnes, a fydd yn ymddeol fel ficer uchel ei barch ym mhlwyfi Llanegwad a Llanfynydd ar y cyntaf o Fawrth.

## FFAIR-FACH



### Pen-blwydd hapus

Cafodd Nancy Thomas, Derwen Deg, ddiwrnod wrth ei bodd ar 17 Rhagfyr pan yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Mae hi'n dymuno diolch o waelod calon i Ena a Bethan am drefnu te iddi hi a'r teulu a'i ffrindiau. Mae'n hynod ddiolchgar hefyd am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a'r dymuniadau da.

### Cymdeithas Y Tabernacl

Ar nos Lun, 23 Tachwedd daeth nifer dda ynghyd i wrando ar Dr. Robert Lewis o Feddygfa Teilo, Llandeilo. Yna ar 7 Rhagfyr pwy yn well i orffen y tymor cyntaf gyda'i hiwmor arferol ond y Prifardd Tudur Dylan Jones.

### Cydymdeimlad

Ar 14 Rhagfyr aeth nifer ohonom o Gapel Tabernacl i angladd **Mr Tudor Evans** sef tad ein gweinidog y Parch. Iwan V. Evans. Yna ar 26 Rhagfyr bu farw **Mrs Sheila Wright** gwraig y diweddar Arthur Wright.

Rydym yn meddwl am yr holl deuluoedd sy'n galaru ar ôl colli anwyliad yn ystod cyfnod y Nadolig heb anghofio am y rhai sy'n gaeth i'r cartrefi ac yn dioddef o dostrwydd ac afiechyd - dim ond gobeithio y bydd 2010 yn garedig i bob un ohonom.

### Cylch Meithrin Ffair-fach

Rhai o blant y cylch meithrin yn cyfrannu at Apêl Bocs Esgidiau Nadolig.





## FFARMERS



[www.ffarmers.org](http://www.ffarmers.org)

### Cyfarchion Priodas

Llongyfarchiadau i Daniel Davies a Helen James a briodwyd yng Nghapel Undodaidd Brondeifi Llanbedr Pont Steffan ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. Mae Daniel yn fab i Eifion ac Ethel Davies, Llys Helen, Ffarmers, a Helen yn ferch i John a June James, Maes Teg, Cwm-ann. Roedd y gwasanaeth yng ngofal Gweinidog Helen, y Parchedig Goronwy Evans. Y morwynion priodas oedd Iona Joseph, Anwen James a Lowri Davies, a'r morwynion bach oedd Sally Rees a Mabli Joseph, gyda Macsen Joseph yn was bach. Y gwas priodas oedd Heilyn Williams, a'r tywyswyr oedd Gareth James, Kevin Thomas, Huw Thomas a Llŷr Thomas. Cafwyd darlleniad yn ystod y gwasanaeth gan Caroline Powell, ac unawd gan Catrin Lisa Davies. Gwesty'r Talbot yn Nhregaron oedd lleoliad y wledl briodas, a chafwyd diwrnod arbennig i ddathlu'r digwyddiad. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt wrth gychwyn ar eu bywyd priodasol yn Nghaerdydd.

### Gwellhad buan

Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Gomer Davies, Troed y bryn, sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

### Neuadd Bro Fana

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur dros ben gyda nifer o weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn y Neuadd. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni y bianyddes, Angela Brownridge a roddodd gyngerdd o gerddoriaeth glasurol ar ddechrau mis Tachwedd. Diolch i Elaine Parker, Tŷ'n Cornel am wneud y trefniadau ar gyfer y gyngerdd. Ar ddiwedd y mis, croesawyd Côr Tŷ Tawe o dan arweiniad Helen Gibbon o Gaerfyrddin, i'r Neuadd i roi cyngerdd. Perfformiwyd rhaglen amrywiol o gerddoriaeth, a chafwyd cwmni y bariton o Gil-y-cwm, Aled Edwards, a wnaeth swyno'r gynulleidfa. Llywydd y Noson oedd David Thomas, Caerdderwen, Crugybar – un o fechgyn yr ardal a fu yn weithgar gyda'r Neuadd pan yn byw yn Ffarmers, a braf oedd cael cyfle i'w groesawu'n ôl. Noddwyd y noson gan TYWYS, mudiad a fu o gymorth mawr yn noddi gweithgareddau celfyddydol yn yr ardal tan yn ddiweddar. Trueni na fyddai modd cael mudiad tebyg eto i noddi ac hyrwyddo digwyddiadau celfyddydol yn ein cymunedau!

Cynhaliwyd Ffair Nadolig ar 4 Rhagfyr o dan nawdd 'Clybiau Gwawr' a 'Merched y Wawr' – cyfle gwych i brynu anrhegion Nadolig o'r amrywiaeth o stondinau, aci weld arddangosfeydd ar addurno bocsys a threfnu blodau ar gyfer yr ŵyl. Roedd Georgina Cornock-Evans yno hefyd yn rhoi perfformiad ar y delyn.

Heddwyn Jones, Derlwyn oedd y meist'r ar gyfer Gyrfa Chwist flynyddol yr Eglwys a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr, a chafwyd cryn hwyl ar y chwarae.

Ar 11 Rhagfyr, cafwyd cefnogaeth arbennig ar gyfer noson 'Bingo' a drefnwyd gan Bwyllgor y Neuadd. Jean Evans, Penarth a Bevan Williams, Forge Cottage oedd yn llywio'r



chwarae, a chafwyd noson hwylus, a digon o chwerthin. Cynhelir noson debyg eto ar 15 Ionawr. Yn anffodus, oherwydd y rhew a'r eira, bu'n rhaid canslo'r Gyngerdd a'r Noson o Garolau a gynhelir yn flynyddol ar y Sul cyn y Nadolig. Wrth lwc, llwyddwyd i ail-drefnu'r digwyddiad ar gyfer y Sul cyntaf yn dilyn y Nadolig, ac yn ogystal â chael cymorth aelodau yr Eglwys a'r Capeli lleol i gymryd at y rhannau arweiniol, cafwyd nifer o eitemau gan Kees Huysmas, y bariton o Dregroes, gydag Elonwy Pugh o Lamed yn cyfeilio. Cafwyd noson hyfryd gydag elw'r noson yn mynd i Uned Gofal Arbennig y Babanod yn Ysbyty Glangwili.

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol Cyngor y Neuadd yn Y Drovers Arms, Ffarmers ar nos Fercher, 16 Rhagfyr. Bu'n gyfle i ymlacio, mwynhau bwyd da, a chael ychydig o sbri gyda'r Cwis a drefnwyd gan Judy Jenkins ac Ethel Davies. Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus arall o weithgareddau yn y Neuadd, rhaid nawr edrych ymlaen at flwyddyn newydd, ac mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu – Noson Bingo; Cyngerdd Fawreddog; Noson yng nghwmni'r Prifardd Tudur Dylan Jones; Noson o Ddramâu gan Gwmni'r Cudyll Coch a Chyngerdd yng Nghwmni Côr Meibion De Cymru.

## LLANARTHNE



### Adran yr Urdd, Llanarthne

Bu'r tymor aeth heibio yn un llawn gweithgarwch i aelodau Adran yr Urdd, Llanarthne. Yn ogystal ag ymweliadau wythnosol Meryl yn hyfforddi'r plant i gloccio, cynhaliwyd sawl sesiwn celf gyda'r plant wrth eu bodd yn cymryd rhan yn y gweithgareddau. Hefyd, cafwyd ymweliad gan Sioned Fflur o'r Urdd, a daeth aelodau Adran Y Neuadd Fach, Porthyrhyd ar ymweliad yn ystod mis Tachwedd a braf oedd i blant y ddwy Adran gael cyfle i gymdeithasu â'i gilydd. Diweddwyd y tymor gyda pharti Nadolig a phawb yn ymuno yn yr hwyl.



Edrychir ymlaen yn fawr iawn at y tymor newydd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Dean a Mandy Quick, Golwg y Tŵr ar enedigaeth Betsan Mai ar 19 Tachwedd, chwaer fach i Alicia a Macsen ac wyres fach arall i Margaret Tobias, Glas y Dorlan.

### Dyweddiadau

Llongyfarchiadau i'r canlynol sydd wedi dyweddio yn ddiweddar sef: Rhiannon Jones, Penpal â Daryl Evans o Lanelli, ei brawd Huw Jones sydd wedi dyweddio â Sian Price o Gil-y-cwm. Hefyd Alice Bound, Tri Cornel â Rhodri Thomas o Rydaman ynghyd â Delyth Jones, Maes yr Awel, Llanarthne sydd wedi dyweddio gyda Geraint Davies, Gorslas. Pob dymuniad da iddynt oll.

### Penodiad

Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Hefin Jones, Wern sy'n aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanarthne ar gael ei ethol yn Is-gadeirydd Ffederasiwn C.Ff.I. Sir Gâr am y flwyddyn yma.





## LLANDEILO



### Clwb Cinio Llandeilo

Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r Cylch yn yr Hydd Gwyn ar ddiwedd Tachwedd. Yr a c t o r amryddawn



Mansel Thomas, Mynydd-y-garreg oedd y siaradwr gwadd. Yn y llun uchod, gwelir y Cadeirydd, Mansel Charles, a'r Ysgrifennydd, Dafi Jones yn cyflwyno rhodd i'r gwestai.

Ar 28 Ionawr cynhelir y cyfarfod nesaf pan fydd Nerys Evans A.C. yn wraig wadd – croeso cynnes i aelodau newydd ymuno.

### Dilyn y Seren

Bu Cyngerdd Nadolig Sefydliad y Merched Sir Gâr 'Dilyn y Seren', a gynhaliwyd yng Nghapel Newydd Llandeilo yn noson ragorol gyda'r capel yn llawn i'r ymylon. Crëwyd naws Nadoligaidd hyfryd dros ben a chafwyd perfformiadau graenus gan bawb a gymerodd ran, gan gynnwys Côr Meibion Dinefwr dan arweiniad John Williams a'r cyfeilydd Ben Montague, a Seindorf Crwbin o dan arweiniad Julian Jones. Hefyd, aelodau unigol Sefydliad y Merched y sir a fu'n portreadu cymeriadau stori'r geni drwy lygaid y gwagedd ac yn cyflwyno eitemau unigol, ynghyd â Chôr y mudiad, dan arweiniad Zena Jenkins a'r gyfeilyddes wadd Rhiannon Griffiths. Bu côr y mudiad, a oedd yn cynnwys aelodau o bob cwr o'r sir yn ymarfer mewn tair ardal sef Trimsaran, Caerfyrddin a Ffair-fach gyda chymorth Amaryllis Stock, Vicki Hayes a Rhiannon Roberts. Roedd ffrwyth yr wythnosau o ymarfer dyfal yn amlwg iawn ar y noson. Rhaid llongyfarch pawb a gymerodd ran, a diolch i bawb oedd yn bresennol. Noson i'w chofio - brethyn cartref ar ei orau!



Gwelir yn y llun uchod bawb a gymerodd ran (gan gynnwys y ddau gôr, Côr Sefydliad y Merched Sir Gâr a Chôr Meibion Dinefwr, y cymeriadau a'r eitemau unigol, rhai o Seindorf Crwbin).

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Elin ac Eirian Davies, Parc Pencrug, Llandeilo ar eni Iwan Llŷr ar 17 Tachwedd. Wŷr cyntaf i Neville ac Averil Williams, Yr Hen Ficerdy, Llanarthne a Joseph a Glenda Davies, Fferm Cwmifor, Cwmifor.

### Côr Sainteilo

Cafodd Côr Sainteilo dymor prysur arall cyn y Nadolig gyda sawl ymarfer, cyngerdd a pherfformiad. Un o'r rheiny, yn ôl ein harfer, oedd canu carolau yn nhref Llandeilo ar y bore Sadwrn cyn y Nadolig ac er gwaetha'r oerfel a'r eira, llwyddwyd i godi bron i £200 gyda'r arian i gyd yn mynd i gasgliad un o'n haelodau, Arwyn Davies tuag at gymdeithas PKU. Mae'n siŵr eich bod wedi darllen am daith gerdded noddedig Arwyn ar hyd Clawdd Offa yn gynharach yn y flwyddyn ac roedd yn bleser gan y côr gefnogi'r elusen deilwng hon. Yn dilyn y canu aeth rhyw 30 ohonom i gael cinio Nadolig blasus iawn yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo i ddod â blwyddyn lwyddiannus arall i ben.

Diolch i'r holl aelodau am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn ac i bawb a gefnogodd weithgareddau'r côr mewn unrhyw ffordd. Edrychwn ynlaen at flwyddyn lewyrchus arall yn 2010 gan ddechrau gyda'n cinio blynyddol a chyngerdd yn Eglwys Cil-y-cwm ym mis Ionawr. Blwyddyn newydd dda i chi gyd.



## LLANDYFAN



### Capel Soar

Cafwyd Cwrdd Nadolig hyfryd dros ben er gwaetha'r cyfnod o dywydd caled a'r hewlydd llithrig. Gwnaeth y plant eu rhannau yn arbennig, a chafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan yr oedolion hefyd. Cafwyd neges Nadoligaidd hyfryd ei naws gan y gweinidog, y Parch. Heini Jones, ac yna perfformiad hyfryd o ddrama'r Nadolig 'Rownd y bac'. I gloi'r prynhawn, cafwyd ymweliad gan Siôn Corn, ac yntau'n amlwg wrth ei fodd i weld y plant eleni eto, cyn cael te blasus yn y festri. Drwy haelioni'r gynulleidfa, cafwyd casgliad anrhydeddus iawn o £120 tuag at yr elusen, Tŷ Hafan. Diolch o galon i bawb am eu cefnogaeth.

Gwelir y plant gyda'r gweinidog y Parch. Heini Jones.



### Colled

Gyda thristwch mawr y dywsom am ddarford Mrs Nancy Hopkins, Fferm Cwmbassett, yn 89 mlwydd oed. Bu'n aelod ffyddlon iawn yng Nghapel Soar a gwelir ei heisiau'n fawr. Roedd hi a'i gŵr, Evan, wedi mwynhau 63 mlynedd o briodas hapus. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Evan, a'u mab Gareth, yr wyrion Eifion, Elin a Dafydd, yr or-wyres Efa, a'i chwaer Linda yn eu colled. Cafodd wasanaeth angladd parchus dros ben yng Nghapel Soar yng ngofal ei gweinidog y Parch. Heini Jones gyda chymorth Iris Thomas wrth yr organ.





## LLANFRIDWEN



### Dim bedydd

Am y tro cyntaf ers cyn cof, bu'n rhaid rhoi'r gorau i fedydd yn yr eglwys am fod y dŵr yn y bedyddfaen wedi rhewi. Roedd Bedwyn Rheinallt ap Julian, mab bychan Moelwen a Julian Marplethwaite, Pleasant View Uchaf, i fod i gael ei fedyddio fore Sul 6 Rhagfyr, ond yng nghanol y gwasanaeth cafwyd bod y dŵr wedi rhewi'n gorn.

### Pererindod

Bu'r ficer, y Parchedig Melbourne Thomas, ar ei bererindod flynyddol i Ffrainc yn y cyfnod cyn y Nadolig. Yn ogystal â throsglwyddo cyfarchion y tymor i drigolion St Olier-le-grand, gefeilldref Llanfridwen yn Llydaw, bu'n ymweld â nifer o'i gyfeillion sy'n berchen ar winllannoedd yn ardal Nantes.

### Beirniadu'r Cyngor

Cafodd Cyngor Plwyf y pentref ei feirniadu'n hallt gan sawl un o'r trigolion am benderfynu rhoi'r gorau i hysbysebu yn y *Llanfridwen Correspondent*. Er mai prinder arian yw'r rheswm a roddwyd, mae'n hysbys ers tro fod y Cyngor yn anfodlon â'r modd y mae'r misolyn yn cyhoeddi manylion am dreuliau'r cyngorwyr.

### Peli eira

Llongyfarchiadau i dîm Gwesty Cranogwen a oedd yn fuddugol mewn cystadleuaeth taflu peli eira ar sgwâr y pentref ddydd Sadwrn, 19 Rhagfyr. Roedd tîm y Gymdeithas Lenyddol yn ail a Merched y Felin Goch yn drydydd. Cafodd tîm Capel Noddfa ei anfon o'r sgwâr am ddefnyddio iaith anwedus ar ôl i'r Parchedig Mandy Brown gael ergyd boenus ar ei phen.

## LLANFYNYDD



### Llyfr Hanes Llanfynydd

Mae llyfr o hanes plwyf Llanfynydd gan y bonheddwr Lyn Thomas, *'The History of Llanfynydd'*, bellach wedi dod o'r wasg. Fe wnaeth Cyngor Cymuned Llanfynydd drefnu noson i'w lansio yn Nhafarn Penybont gydag arddangosfa o luniau lleol ar 4 Rhagfyr. Roedd y lle dan ei sang a braf oedd cael cwmni'r hynafgwr parchus D. T. Davies, Dryslwyn i wneud y lansiad swyddogol. Llywyddwyd y noson gan Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanfynydd, Mairwen Rees. Cafwyd cipolwg ar gynnwys y llyfr gyda chymorth sleidiau gan Conway Davies, Llanarthne a gwnaed y diolchiadau gan yr awdur Lyn Thomas. Mae'r cyhoeddiad wedi cael ei noddi gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Cymuned Llanfynydd, Prosiect Milltir Sgwâr, Antur Teifi ynghyd â noddwyr lleol. Pris y llyfr yw £12.50 ac mae bellach ar werth yn y siopau.



Conway Davies, D. T. Davies a Lyn Thomas

## LLANSAWEL



### Pen-blwydd

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau am iechyd ac hapusrwydd i Sadie Jones, Penbeili, Llansawel a ddathlodd ei phen-blwydd yn nawdeg mlwydd oed ar 23 Rhagfyr.

## LLANYMDDYFRI



### Mr Cyril Rees, Erwlon, 1914 – 2009

Gyda marwolaeth **Mr Cyril Rees**, Erwlon, collodd Llanymddyfri a'r fro gymeriad hoffus, ac amryddawn. Ganwyd ef yn Velindre - drws nesaf i Erwlon. Addysgwyd ef yng Ngholeg Crist, Aberhonddu a Choleg Harper Adams yn Swydd Amwythig. Yno, graddiodd i fod yn arwerthwr ond bu rhaid iddo ddychwelyd i Lanymddyfri adeg yr Ail Ryfel Byd. Wedi priodi, aeth ef a'i wraig ati i sefydlu fferm a rownd laeth lwyddiannus, ac agor maes carafannau poblogaidd iawn. Ond roedd mwy i'w fywyd na gwneud bywoliaeth. Bu'n Faer tref Llanymddyfri deirgwaith, ac roedd yn Henadur yn y dref. Gweithiodd yn ddyfal gyda mudiadau megis Cartrefi Cheshire. Bu'n gynrychiolydd sirol Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr. Roedd yn un o sylfaenwyr Clwb Friesian Holstein De Cymru ac ef oedd ei Gadeirydd cyntaf. Gwnaed ef yn Ynad Heddwch ym 1960. Roedd yn llywodraethwr hefyd yn Ysgol Pantycelyn. Bu'n aelod o'r Awdurdod Iechyd Lleol, o Gymdeithas Tirfeddianwyr y Sir ac yn Llywydd arni. Roedd yn aelod o Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ac o Bwyllgor Ymgynghorol y Sir. Apwyntiwyd ef i Dribiwnlys y Tir. Roedd yn aelod o'r Llenng Brydeinig a Llywydd y gangen leol. Derbyniodd yr anrhydedd o *MBE* ym 1960 am ei wasanaeth i amaethyddiaeth a'r gymuned leol. Doedd neb yn fwy selog dros y *Drovers* nag ef. Roedd yn aelod ffyddlon o Gapel Salem, Llanymddyfri ac yn ddiakon ac ymddiriedolwr yno. Yno, fel ym mhobman arall, roedd ei farn yn cael ei pharchu.

Daeth tyrfa fawr i'w gynhebrwng yn Salem a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Sant Dingad ar 10 Hydref. Wedi cyfnod o bron trigain mlynedd o fywyd priodasol, mae'n gadael Margaret ei wraig, ei ddau fab, Peter a Huw a'i briod Elizabeth ac wyrion yr oedd yn dwli arnynt, oherwydd uwchben popeth arall, dyn teulu oedd Cyril. Cydymdeimlir yn ddidwyl â nhw i gyd.

(TGJ)

### Merched y Wawr Bro Pantycelyn

Ar nos Iau, 10 Rhagfyr daeth deunaw o aelodau'r gangen ynghyd i'r Neuadd Gatholig. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Enid Protheroe ac fe ddiolchodd i'r aelodau hynny fuodd yn y Ffair Nadolig yn Ffarmers. Cawsom amser pleserus dros ben yn cyd-ganu carolau, gwrando ar unawd, deuawd, darlleniadau o'r ysgrhythur a darnau hyfryd o farddoniaeth. Gwelsom flodau yn cael eu trefnu ar gyfer y Nadolig. Yna cawsom wledd, pawb wedi dod â danteithion i'w rhannu ac roedd y bwrdd yn orlawn. Dymunwyd cyfarchion y tymor i bawb.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 10 Ionawr am 7pm.

### Clwb Gwawr

Daeth pawb ynghyd i westy Pen y Brenin i ddathlu ein cinio Nadolig. Roedd y bwyd yn ardderchog a'r cwmni yn llawen wrth sgwrsio a hel atgofion am ein blwyddyn ddiddorol. Cafodd pawb anrheg Nadolig cudd! Bydd ein cyfarfod nesaf ar 7 Ionawr, byddwn yn bowlio mat byr yn y Clwb Bowlio yn Llanymddyfri. Blwyddyn Newydd Dda i chi ddarllenwyr *Y Lloffwr*.



## Capel Salem

Mae'r Sul agosaf at y Nadolig yn ddiwrnod arbennig. Dyma'r bore pan mae plant Ysgol Sul yr holl ofalaeth yn dod i roi eu perfformiad unigryw o ddrama'r geni. Eleni eto roeddynt yn wefreiddiol a phawb yn perfformio ar ei orau. Diolch i bawb a fu wrthi yn hyfforddi, ac i goroni'r cyfan fe ddaeth Siôn Corn ag anrhegion iddynt!

## Ysgol Uwchradd Pantycelyn

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau yr ysgol ar nos Iau 17 Rhagfyr. Mae hwn yn wasanaeth sydd â nawws arbennig iawn iddo. Bob blwyddyn mae Eglwys Llandingad dan ei sang ac mae'n hyfryd cael ein tywys at y Nadolig drwy ddarlleniadau, eitemau cerddorol gan unigolion, partion, côr a cherddorfa. Diolch i blant yr ardal am eu cyfraniad ac i Phillip Watkins a Jane Thomas am eu harweiniad.

## Priodas



Llongyfarchiadau i Carys Elaine James, Garej Morris Isaac Llanymddyfri a Tony Lloyd Harries o Gaerfyrddin. Priodwyd y ddau yng Nghapel y Tabernacl, Ffair-fach. Cyflwynwyd y briodferch gan ei nai Elgan Davies a pharatowyd a threfnwyd y blodau gan gynnwys tusw y briodferch a'r morwynion gan ei chwaer, Siân. Cynhaliwyd y wledd mewn marquee yn Jab-a-Jacks yn Llanboidy. Mae Carys yn gynrychiolydd i gwmni enwog *Cadbury's* ac mae Tony yn beintwr. Treuliwyd y mis mêl ar ynys Cape Verdi ac mae'r ddau wedi ymgartrefu bellach yn *Lime Grove*, Caerfyrddin.

## Diolchiadau'r Maer

Dymuna Helene Lovell, Maer Tref Llanymddyfri, ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo i wneud Penwythnos Goleuo'r Dref mor arbennig eleni. Dewisiwyd thema Fictorianaid a bu llawer iawn o drigolion y dref yn ymuno yn yr hwyl gan wisgo dillad o'r cyfnod.

Diolch arbennig i Mark Evans o Cilgwyn am y ceffylau a'r cart, Mr a Mrs John Griffiths am y peiriant eira, Mr a Mrs Adrian Manning am y beiciau, Côr Meibion Llanymddyfri, y Grŵp Actorion Ifanc, y Grŵp Dawnsio Gwerin, Y Clwb Rotari a Huw George, a Bloeddiwr y Dref, Joe Beard am gyhoeddi'r cyfan!

Cofiwch ymweld â'r Ganolfan Treftadaeth lle mae arddangosfa o luniau o'r gorffennol yn cael eu harddangos ar hyn o bryd.

Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Llanymddyfri a thu hwnt!

## PENRHIW-GOCH



### Ysgol Sul Capel Penrhiw-goch

Bu mis Rhagfyr yn gyfnod prysur iawn i blant yr Ysgol Sul a'r Gorlan. Ar gychwyn y mis cynhaliwyd gwasanaeth o garolau yng ngoleuni'r canhwylau yn y capel. Croesawyd plant Ysgol Gynradd Maesybont i ymuno yn y dathlu a gwnaethant adrodd hanes y geni twy lygad y dyn hynod o glyfar Dr Pwy! Cafwyd gwledd o adloniant ac i orffen fe wnaeth plant yr Ysgol Sul a'r Gorlan ymuno mewn dwy garol gyda phlant yr ysgol - dyna oedd talent. Diolch i'r rhai fuodd yn gweini'r lluniaeth ysgafn yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

Ar Ddydd Sul, 13 Rhagfyr cafwyd parti Nadolig yn y festri i'r plant i gyd. Cafwyd gwledd o fwyd. Diolch i'r rhieni am hynny, ac i Julie, Nia a Wyn am y cymorth. Derbyniodd y plant docynnau llyfrau fel gwerthfawrogiad o'u cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

Yna, ar nos Iau, 17 Rhagfyr, cafwyd noson o wneud crefftiau Nadoligaidd yng Ngorlan y Plant drwy drefniant yr arweinyddes Elin.

Ar ddydd Gwener, 18 Rhagfyr derbyniodd Ysgol Maesybont anrheg o werthfawrogiad gan y Parch. Aled Maskell ac Elin Harris, arweinydd yr Ysgol Sul a'r Gorlan i ddiolch iddynt am eu gwaith arbennig adeg y gwasanaeth Nadolig yn y Capel (*gweler y llun isod*). Derbyniwyd clychau llaw a gosodwyd tasg iddynt ar gyfer Nadolig 2010 gan Elin ac hynny fydd i ganu cân yn y gwasanaeth gan ddefnyddio'r offerynnau yma. Diolchwyd iddynt am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn a gobeithion hapus a llewyrchus ar gyfer 2010.



## PONTARGOTHI



### C.Ff.I. Dyffryn Tywi

Mae'r ychydig wythnosau diwethaf wedi bod yn adeg prysur yng nghalendr blynyddol y clwb.

Ar nos Wener, 20 Tachwedd, aethom ar daith i Cross Hands i ymweld ag adeilad newydd Bwydydd Castell Howell. Drwy gyfrwng fideo, gwelsom hanes y busnes llwyddiannus hwn gan olrhain y cerrig milltir pwysig o'r cychwyn cyntaf i'r presennol. Dyma fusnes sydd wedi datblygu tipyn ers cyfnod y fferm deuluol yn Nhrefechan ac o ganlyniad i'r galw cynyddol am wasanaeth o'r fath, rhaid oedd symud i safle fwy o faint ym Mharc Pensarn yng Nghaerfyrddin ac yna'n ddiweddarach i'r safle presennol yn Cross Hands. Ar ôl clywed yr hanes cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad, y safle ynghyd â'r storfeydd, rhewgelloedd a'r storfeydd oer. Hoffai'r clwb ddiolch i'r cwmni am adael i ni weld tu ôl i lenni un o fusnesau mwyaf llwyddiannus Sir Gâr.





Daeth carfan dda ynghyd i Dafarn yr Aradr, Felin-gwm ar nos Wener, 27 Tachwedd ar gyfer gyrfa Tip-it flynyddol y clwb. Diolch i bawb am gefnogi yn ôl eu harfer. Bu cryn oriau o gystadlu brwd ac ar ddiwedd y noson cyhoeddwyd yr enillwyr fel a ganlyn: 1af – Dawn Reed, Aled Jones a Mark Phillips, 2il – Elin Daniels, Ian Phillips a Siân Thomas. Llongyfarchiadau gwresog i'r ddau dîm. Dymuna'r clwb ddatgan ei ddiolch i berchnogion Tafarn yr Aradr am adael iddynt gynnal y noson gymdeithasol hon a hefyd i Alun Thomas am gadw trefn ar y cystadlu.

Bu tri aelod o'r clwb yn cynrychioli Sir Gâr yng nghystadleuaeth barnu wyn tew yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd eleni. Bu Dylan Jones yn cynrychioli'r rhai o dan 26 oed, Aled Johnson o dan 21 oed ac Angharad Thomas i'r rhai o dan 18 oed. Llongyfarchiadau i Angharad am gipio'r ail safle yn y gystadleuaeth.

Cynhaliwyd noson gwis dan ofal y Llywydd Kitty Raymond a'r Is-lywydd Elonwy Phillips ar nos Wener, 11 Rhagfyr. Rhannwyd yr aelodau a'r arweinyddion i dimau o bedwar a phawb ar dân eisiau gwybod beth oedd tasg gyntaf y noson. Cafwyd cyfres o gwestiynau o amrywiol categorïau - adnabod enwogion sydd ar y sgrîn deledu ac adnabod baneri amrywiol wledydd y byd. Ar ddiwedd y noson o grafu pen, trafod, ysgrifennu a marcio, y tîm buddugol oedd Dylan Jones, Angharad Thomas, Georgia Reed a Martin Thomas. Diolchwyd i'r trefnwyr am eu gwaith paratoi ar gyfer noson lwyddiannus ac addysgiadol.

Ar nos Iau, 17 Rhagfyr a nos Wener, 18 Rhagfyr ymgasglodd aelodau'r clwb er mwyn teithio'r ardal i ganu carolau. Ar ddiwedd y ddwy noson casglwyd cyfanswm o £1,158 a bydd yr arian hynny'n mynd at ddwy elusen y clwb am eleni sef, Cymdeithas Epilepsi a Cystic Fibrosis. Diolch i holl drigolion yr ardal am eu haelioni a'u caredigrwydd yn ôl yr arfer.

#### Pen-blwydd

Llongyfarchiadau i'r bytholwyrdd Jim Jones, Preswylfa ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar 5 Rhagfyr. Dymunir iddo iechyd da ac hapusrwydd yn y dyfodol.

## TALYLLYCHAU



### Llongyfarchiadau

Rwy'n siŵr y caredm longyfarch disgyblion lleol Ysgol Tre-gib a gymerodd ran yng nghynrychiad yr ysgol o'r sioe 'Les Miserables' ym mis Rhagfyr. Pleser oedd gweld eu henwau fel aelodau o'r côr a'r gerddorfa a Gruffydd Williams, Ffion a Heledd Thomas yn cymryd rhan y prif gymeriadau yn y sioe. Llongyfarchiadau calonnog iddynt a phob llwyddiant ar gyfer y dyfodol.

### Dathlu 135 mlynedd

Croesawyd criw ffilmio Wedi 7 i Ysgol Talyllychau i ffilmio rhai o ddatliadau'r ysgol yn 135 mlwydd oed. Gwelwyd rhai o gymeriadau'r ardal yn hel atgofion gyda Joe Roberts yn cofio rhai achlysuron arbennig. Gwelai'r abaty bob dydd ac roedd yn cofio clirio a thacluso safle'r abaty. Canodd gân ddiddorol am y pentref, geiriau a gyfansoddwyd gan y diweddar Caradog Davies ar dôn Hen Wlad fy Nhadau.

Dangoswyd lluniau o'r abaty a'r eglwys a chlywasom Nansi Walford yn sôn am bwysigrwydd yr Eglwys.

Bu Elfed Wood, y prifathro, ac Eifion Roberts, Cadeirydd y Llywodraethwyr yn siarad a bu plant yr ysgol a Chôr Meibion Dinefwr yn canu.

### Dymuno'n Dda

Dymunwn yn dda i Gilda Roberts, Ffald y Bugail ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty'r Tywysog Phillip, Llanelli. Gobeithio y caiff hi wellhad buan.

### Noson Goffi

Cynhaliwyd noson goffi flynyddol yr eglwys yn yr ysgol ddechrau mis Rhagfyr a chafwyd noson lwyddiannus iawn gydag elw o dros £2,300. Carai'r ficer, y Parch. Ganon Joanna Penberthy ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael a'u cefnogaeth. Cynhaliwyd nifer o wasanaethau yn yr eglwys dros y Nadolig a diolch i bawb am eu presenoldeb yn yr oedfaon ac am eu cefnogaeth.

### Capel Esgairnant

Brynhawn Sul, 27 Rhagfyr, cynhaliwyd oedfa Nadolig Capel Esgairnant gydag Angharad Williams, Ystrad yn llywyddu. Ar ôl gair o weddi a chroeso, cyflwynwyd y carolau gan Caryl Williams, Gruffydd Williams, Enid Davies, a Rhodri Williams a chafwyd datganiad hyfryd o'r garol Trysor y Crud gan Angharad, Aled, Rhodri, Rhys a Gruffydd. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrythur a'r myfyrdodau gan Catrin James, Jean Davies, Myfanwy Davies a Goronwy Davies a dosbarthwyd yr anrhegion i'r plant a'r bobl ifanc yn hwylus a diddorol gan Beryl Williams.

Terfynwyd trwy weddi a bendith gan Goronwy Davies ac Angharad a theimlwyd ein bod wedi cael oedfa fendithiol.

Wedi egwyl hyfryd gyda diod poeth a mins pei a chymdeithasu cynnes, mwynhawyd cwis wedi'i baratoi gan Mary Williams. Bu'n brynhawn hapus a therfynwyd y gweithgareddau gyda Goronwy Davies yn diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r oedfa.

### Llongyfarch

Yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd elni, daeth un o brif wobrau'r sioe i Dalyllychau. Pleser oedd clywed bod Lorraine Makowski-Heaton yn gyd-enillydd cystadleuaeth Ffermwraig y Flwyddyn. Ffynnongrech yw ei chartref ac yno mae'n ffermio geifr ac yn paratoi cynhyrchion o laeth yr afr, cynnyrch sy'n addas ar gyfer plant nad ydynt yn gallu cymryd llaeth y fuwch. Darperir cynnyrch sy'n lleddfu effeithiau *eczema* a'r fogfa. Mae'n paratoi melysion a chaws 'Kid-me-not' ac yn eu marchnata yn lleol ac yn y siopau mawrion.

## TRAP



### Gyrfa Chwist

Bu gyrfa chwist flynyddol Sioe Trap, a gynhaliwyd yn y Neuadd Ddinesig, Llandeilo, yn noson hwylus dros ben. Heulwen Jones, Bethlehem oedd y galwr a chafwyd cefnogaeth dda i'r noson.

### Sefydliad y Merched

Cafwyd Cinio Nadolig blasus dros ben yng Ngwesty'r Arad, Rhosmaen. Estynnodd y Llywydd, Cherie Williams, groeso cynnes i bawb. Braf oedd cael cwmni Margaret Squires a oedd newydd gael llawdriniaeth i dderbyn clun newydd. Mae'r ffaith ei bod yn cadw mor heini wedi bod yn hwb mawr i'w hadferiad buan.

Diolchodd Cherie yn gynnes iawn i bawb a gymrodd rhan yn y gyngerdd *'Dilyn y Seren'*. Roedd pawb a fu yno wedi cael noson wrth eu bodd. Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson.

Cyn y Nadolig, bu nifer o'r aelodau o amgylch yr ardal yn canu carolau, gan godi £280 tuag at elusen Tŷ Hafan. Diolch o galon i bawb am eu haelioni.



### Da iawn Efa!

Bu 2009 yn flwyddyn brysur a llawn cyffro i Efa Dafydd, 15 oed o Landyfan. Treuliodd ran helaeth o'r gwanwyn a'r haf yn marchogaeth ei chaseg dalentog, Hynni, i dîm Gymkhana llwyddiannus Castell Nedd. Aethant i'r rownd derfynol yn Sioe Llanelwedd, ac yna ymlaen i Bencampwriaeth Prydain, lle daethant yn 7fed o'r 17 tîm gorau yn y wlad. Yn 2010, bydd hi'n marchogaeth i dîm Gorllewin Morgannwg ar hyd a lled y wlad.



Cawn ei gweld yn siarad am ei phrofiadau yn y Gwanwyn ar y rhaglen 'Y Fet a Fi' ar S4C.

Bu hefyd yn cyflwyno sawl eitem ar y rhaglen, Mosgito i bobl ifanc, a bydd hi'n gwneud mwy o eitemau iddynt yn y dyfodol. Da iawn ti Efa!

### Prif Weinidog Cymru - Carwyn Jones AC

Braf cofnodi mai gŵr â thipyn o gysylltiadau â Sir Gaerfyrddin yw Prif Weinidog newydd Cymru yn dilyn ymddeoliad Rhodri Morgan o'r aruchel swydd. Cafodd **Carwyn Jones** ei eni ym 1967 yn Abertawe a chafodd ei addysg yn Ysgol Gyfun Brynteg, Pen-y-bont ar Ogwr, ym Mhrifysgol Cymru Aberystwyth ac yn Ysgol y Gyfraith yn Llundain. Cyn ei ethol, roedd yn fargyfreithiwr mewn siambrau yng Nghaerdydd yn arbenigo yng Nghyfraith Troseddau, Teulu a Niwed Personol, ac yn diwtor proffesiynol yn Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Cymru Caerdydd. Bu'n Gynghorydd ar Gyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn Gadeirydd y Grŵp Llafur ar y Cyngor. Mae hefyd yn aelod o Amnest Ryngwladol, UNSAIN, *Transport and General Workers Union* (TGWU) a Chymdeithas y Ffabiaid. Mae wedi bod yn aelod o'r Blaid Lafur ers 1987 ac fe chwaraeodd ran amlwg yn ymgyrch 'Ie Dros Gymru'.

Etholwyd Carwyn Jones yn Aelod y Cynulliad dros etholaeth Penybont yn 1999. Cafodd ei benodi'n Is-ysgrifennydd ym mis Mawrth 2000 a disodlodd Christine Gwyther fel yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar drothwy Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2000.

Ym mis Mawrth 2002, ychwanegwyd rôl y Trefnydd at ei bortffolio Materion Gwledig. Ym mis Mehefin 2002, cafodd ei benodi'n Weinidog dros Lywodraeth Agored. Ym mis Mai 2003, cafodd ei benodi'n Weinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Ym mis Mai 2007, cafodd ei apwyntio yn Weinidog dros Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg ac ers mis Gorffennaf 2007 cafodd ei apwyntio yn Gwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ. Yna ar 1 Rhagfyr, 2009 cyhoeddwyd mai Carwyn Jones yw arweinydd y Blaid Lafur yng Nghymru, ac ar 10 Rhagfyr fe'i etholwyd yn Brifweinidog Cymru.

Mae'n briod gyda gwraig a aned ym Melfast ac mae ganddynt ddau o blant. Dymunir yn dda iddo ef a'i deulu yn y dyfodol.



### Diwedd i'r sieciau

Beth sydd wedi achosi i hyn i godi ei ben eto? Wel, penderfyniad yn Llundain a allai wneud rhagor o niwed i gymunedau cefn gwlad Cymru. Fe gyhoeddodd y 'Cyngor Taliadau' ei fod yn bwriadu diddymu'r defnydd o sieciau a gan mai cyngor o fancwyr ydyw (a phwy gredith y rheiny rhagor?!) dyw hi ddim yn edrych yn debygol y bydd drws yn agor er mwyn i'r cyhoedd roi eu barn ar hyn. Ond dyna'r drws sydd angen ei wasgu ar agor gan y rhai â meddylfryd cymunedol. Pam? Mae angen meddwl am ganlyniadau diddymu sieciau.

Y rheswm pennaf, ar hyn o bryd, dros ddefnyddio banc yw i dalu sieciau i mewn, ac os nad oes angen talu rhain i mewn, pa eisiau cadw banc? Fe gewch chi arian o'r twll yn y wal. A thwll arall yn y stryd fydd y banc.

Yn ail, mae economi cefn gwlad yn dibynnu ar y gallu i un person dalu'r llall ar y pryd heb orfod cadw llwyth o arian parod yn y cartref. Ydyn ni am fynd yn nôl i'r dyddiau cyn Banc yr Eidon Du, pan fydd pob masnachwr yn darged parod i ladron?

A faint o ofid fydd hyn yn ei achosi i bobl hŷn? A sut fydd Tadcu a Mamgu yn rhoi anrhegion ariannol i'w hwyrion? Blant bach Blaenau Tywi, byddwch chi'n colli mas!

Ar ddiwedd y dydd, mae 3.8 miliwn o sieciau yn cael eu hysgrifennu yn ddyddiol ac mae 26 miliwn o bobl yn parhau i ddefnyddio sieciau. Os ydych am frwydro yn erbyn bancwyr di-wyneb a gwrth-gymuned Llundain bell, cysylltwch â Mark Hunter AS sydd wedi dechrau ymgyrch yn barod, neu yn well fyth, cysylltwch â Rhodri Glyn Thomas neu Adam Price i wyntyllu'r ddadl gymunedol.

**Lleolyn**

### Rhodri Morgan – y dyn a'r gwleidydd

Bydd rhaglen bortread o Rhodri Morgan yn cael ei darlledu ar nos Iau, 14 Ionawr ar S4C yn dangos agweddau ar fywyd y cyn Brif Weinidog sydd heb gael sylw mawr o'r blaen.

Yn y rhaglen **Rhodri Morgan**, fe fydd y newyddiadurwr profiadol Tweli Griffiths yn dilyn Rhodri yn ymarfer ei fysedd gwyrdd yn yr ardd, ac yn mwynhau ei wyliau blynyddol ym Mwnt. Bydd hefyd yn edrych ar yrfa wleidyddol a oedd yn cynnwys bron i ddegawd fel ail Brif Weinidog y Cynulliad.

Eglura'r cyflwynydd Tweli Griffiths, "Y bwriad oedd ceisio treiddio i'r hyn ddylanwadodd ar Rhodri - fel dyn yn ogystal â fel gwleidydd - ac yn arbennig beth wnaeth iddo ymuno â'r Blaid Lafur yn y lle cynta'."

Mae'r rhaglen yn cynnwys cyfweiliad gyda mam Rhodri, Huana Morgan, gafodd ei ffilmio yn 2000. Mae'n sôn am gadw'r Gymraeg yn fyw ar yr aelwyd ynghanol Seisnigrwydd Caerdydd, ac yn cofio mynd â'i mab i'w gyfarfod gwleidyddol cyntaf pan oedd tua 12 oed. Bu farw Huana yn 2005 ar drothwy ei phen-blwydd yn gant oed.

Yn y Chwedegau, doedd Rhodri Morgan ddim yn un o'r Cymry Cymraeg ifanc gafodd eu hysbrydoli gan alwad Saunders Lewis am 'chwyltro' i achub y Gymraeg. I ddechrau, roedd ei dad, Yr Athro T J Morgan, wedi croesi cleddyfau â'r llenor a'r cenedlaetholwr enwog.

Ac fe gollodd y Rhodri ifanc yr adfywiad cenedlaethol yn nechrau'r Chwedegau gan ei fod yn fyfyrwr yn Rhydychen ac wedyn yn Harvard, America. Yng nghanol y Chwedegau, ei ffrind gorau, Neil Kinnock, wnaeth ei berswadio i ymuno â'r Blaid Lafur.

Yn ôl ei frawd Prys Morgan, mae hanes a diwylliant Cymru wedi dod yn bwysicach i Rhodri ers cael ei ethol yn Brif Weinidog. Meddai Prys Morgan, "Mae e wedi ymwneud gymaint yn fwy â'r 'Fro Gymraeg' a'n llenyddiaeth, a'n diwylliant, ac mae e wedi dod yn debycach i 'nhad a 'nhad-cu a'n cyndeidiau ni - nid yn unig eu radicaliaeth nhw, ond eu diddordeb nhw mewn Steddfodau ac yn y blaen."

**Rhodri Morgan**

**Nos Iau, 14 Ionawr, 8.25pm, S4C**





## COFIO CYMWYNASWYR

### Dewi Thomas M.B.E., Brechfa. 1924 - 2009

G y d a marwolaeth **Mr Dewi Thomas**, gynt o Delfryn a Bryn Stores, Brechfa ar 6 Rhagfyr fe gollodd Sir Gaerfyrddin un o'i chymeriadau cymwynasgar amlycaf.

Yn frodor o Frechfa, fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gynradd Brechfa ac Ysgol



Ramadeg y Bechgyn, Caerfyrddin. Gadawodd yr ysgol i ffermio yn Llwyngriffith ac ar ôl pedair mlynedd o brofiad o amaethu, fe aeth i mewn i'r busnes deuluol. Priododd ag Edith Jones, merch fferm Pantyrewig, Felin-gwm ym 1948. Parhaodd fel partner yn y busnes deuluol, A. D. Thomas a'i Fab, tan 1957, ac yna cymerodd drosodd fel pennaeth y cwmni yn dilyn marwolaeth ei dad. Parhaodd i reoli'r cwmni tan 1973. Yn 1969, adeiladodd felin gynhyrchu bwyd anifeiliaid a bu'n gwerthu ei fath ei hun o fwyd - *Cothi Feed*, ac ar un adeg roedd e'n cyflogi trigain o weithwyr cyn iddo werthu'r busnes i Gwmni Crossfields, Avonmouth.

Cymerodd ddiddordeb mewn llywodraeth leol. Cynrychiolodd Plwyf Llanfihangel Rhosycorn fel aelod o Gyngor Gwledig Cylch Castell Newydd Emlyn ym 1958 a bu'n Gadeirydd arno am gyfnod. Bu'n aelod o Gyngor Sir Gaerfyrddin o 1967 tan 1973 ac ym 1970 fe wnaed e'n Ynad Heddwch. Roedd e'n weithiwr egniol gyda mudiadau elusengar a gwirfoddol. Bu'n Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Cartref Coomb Cheshire a Chymdeithas Ffrindiau Ysbyty Dewi Sant ac roedd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas Ffrindiau Alltymynydd, Llanybydder.

Ymhlith yr anrhydeddau a ddaeth i'w ran oedd ei ddewis yn Llywydd Sioe'r Tair Sir, Llywydd Ffederasiwn Sir Gâr o Fudiad y Ffermwyr Ifanc o 1979 tan 1986 ac yn Llywydd dros y Mudiad yng Nghymru gyfan ym 1985 pan dderbyniodd yr anrhydedd o gael yr *M.B.E.* Roedd ei gyfraniad i Fudiad y Ffermwyr Ifanc ac yn arbennig i Sioe'r Tair Sir a Sioe Frenhinol Cymru'n amhrisiadwy.

Cymerodd crefydd ran amlwg yn ei fywyd, ac yn arbennig Capel Methodistiaid Calfinaidd Bethania, Brechfa lle bu'n ddiakon a thrysorydd am dros ddeugain mlynedd, ac ergyd drom iddo oedd colli ei briod annwyl Edith a gweld y capel bach yn cau ac yntau'n dioddef llesgedd iechyd.

Cynhaliwyd yr angladd gyhoeddus ar 14 Rhagfyr yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin ac yna ym mynwent Capel Bethania, Brechfa. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch. J. Towyn Jones a chafwyd teyrnged haeddiannol gan David Lewis, Llandysul.

"Yr hyn a allodd hwn efe a'i gwnaeth".

Cydymdeimlir â'i chwaer Edna a'i gŵr Ken a'r teulu.

### Hywel Teifi Edwards. 1934 - 2010

**Hywel Teifi Edwards**, a fu farw ar 4 Ionawr, oedd un o ffigurau mwyaf lliwgar ac awdurdodol y diwylliant Cymraeg.

Roedd yn enwog am ei ffraethineb, ei wybodaeth ryfeddol am yr Eisteddfod Genedlaethol a chyfnod Fictoria ac am ei farn ddi-flewyn ar dafod. Fe fu hefyd yn wleidydd tanllyd.

Roedd wrth ei fodd gyda rhai o gymeriadau mawr y

bedwaredd ganrif ar bymtheg ac fe fyddai ei bersonoliaeth fawr yntau wedi gweddu'n dda i ddadlau a brwdfrydedd y cyfnod.

Roedd darlith gan Hywel Teifi Edwards yn denu'r tyrfaedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yntau'n gallu traethu'n aml heb brin nodyn o'i flaen

Un o'i ddadleuon canolog oedd fod Brad y Llyfrau Gleision ym 1847 - yr adroddiad damniol ar ddiwylliant a foesau'r Gymru Gymraeg - wedi ystumio agweddau'r genedl a'n gwneud ni'n rhy amddiffynnol.

Roedd hefyd yn un o amddiffynwyr mawr y Brifwyl a'r Orsedd - er ei fod wedi creu dadlau trwy alw am ddiwygio honno a chael gwisg ychwanegol, goch - ac roedd yn un o gefnogwyr penna'r syniad o bapur dyddiol Cymraeg.

Cafodd ei eni ym 1934 a'i fagu yn Llanddewi Aberarth, Ceredigion, ond fe fu'n byw am flynyddoedd yn Llangennech ger Llanelli.

Bu'n astudio yn Ysgol Ramadeg Aberaeron ac ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn dechrau ar yrfa yn feirniad llenyddol a hanesydd. Bu'n bennaeth ar Adran Gymraeg Prifysgol Abertawe cyn ymddeol, ond fe wnaeth gyfraniad mawr hefyd ym maes addysg oedolion.

Yn ei lyfrau, fel ei ddarlithoedd, mae wedi arbenigo ar hanes yr Eisteddfod Genedlaethol gan gyhoeddi dwy gyfrol o'r enw *Yr Eisteddfod a Gŵyl Gwalia*. Mae'n arbenigo ar hanes y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Fe fu'n cyfrannu'r gyson i raglenni teledu a radio Cymraeg ac roedd yn enwog am ei ffraethineb a'i hiwmor. Golygodd ddeg cyfrol, *Cyfres y Cymoedd* - casgliadau o ysgrifau llenyddol a hanesyddol am wahanol ardaloedd.

Un arall o'i gyfrolau oedd *'O'r Pentre Gwyn i Gwmderi'*, sy'n astudiaeth o ddelwedd y pentref yn llenyddiaeth y Cymry.

Yn ei lyfr *'Codi'r Llen'*, bu'n olrhain hanes a chasglu lluniau o'r theatr amatur yng Nghymru yn ystod hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.

Safodd fel ymgeisydd i Blaid Cymru dros etholaeth Llanelli ym 1983 a thros etholaeth Caerfyrddin ym 1987 ac fe fu'n gynghorydd tros Blaid Cymru ar hen Gyngor Sir Dyfed.

Mae'n gadael gweddw a dau o blant - merch, Meinir, a mab, y newyddiadurwr Huw Edwards. (Erthygl o **GOLWG 360**)





## ~ CHWARAEON ~

### PENCAMPWRIAETH HOCI

Ar 29 Tachwedd bu tîm hoci dan 14 oed Sir Gâr yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Timau Hoci Merched dan 14 oed De Cymru ar gaeau *astroturfy* Mwmbwls, Abertawe. Roedd nifer o ferched o Ysgolion Tre-gîb a Phantycelyn yn y tîm a gwnaethant yn ardderchog i gyrraedd y ffeinal ar ôl trechu Caerdydd yn y rownd gyn-derfynol.

Yn y ffeinal, tîm De Ddwyrain Cymru oedd y gwrthwynebwyr ac ar ôl gêm galed iawn, bu Sir Gâr yn anffodus i golli ar ôl ciciau cosb.

Llongyfarchiadau gwresog i'r tîm a'u hyfforddwyr, Mrs.H Miller, Tre-gîb a Mrs. F. Walters, Pantycelyn.

(Gweler llun ar dudalen 28)

### CANU CLODY CAMPAU

Detholiad o farddoniaeth y maes chwarae.

Ar hyd y canrifoedd mae Cymru wedi meithrin unigolion sydd wedi ein cyfareddu ni gyda'u doniau a'u gorchestion ym myd y campau. Yn y gyfrol hon, ceir detholiad o gerddi gan amrywiol feirdd sy'n canu clodydd i'r unigolion hynny – o Colin Jackson i Tommy Farr, Ryan Giggs i Nicole Cook. Mae'r cerddi yn adlewyrchiad o'n diwylliant ni fel Cymry ac yn gyfraniad pwysig.

Awdur: Lowri Roberts (gol. a chasglydd ac awdur rhagymadrodd).

Pris : £8.50



## Swyddi Dysgu Cyfrwng Cymraeg

| AALI      | Swydd                            | Dechre         |
|-----------|----------------------------------|----------------|
| RCT       | Athro CAD am 8 wythnos           | Nawr           |
| Caerdydd  | Bl 6 Cyfnod Mamolaeth            | Ionawr 2010    |
| Caerdydd  | Cynh Dysgu, Cyfnod Mamolaeth x 2 | Ionawr 2010    |
| Caerdydd  | Cynh Dysgu2 dymor                | Ion—Gorff 2010 |
| Y Fro     | B2 Cyf Mam                       | o Ebrill 2010  |
| Penybont  | CAD cyflenwi                     | Chwef 2010     |
| Penybont  | Bl 4 salwch tymor hir            | Nawr           |
| Caerffili | Bl Cyf Mamolaeth                 | Ion 2010       |
| Abertawe  | CAD cyflenwi                     | Nawr           |

**Mae angen Athro Cyflenwi o Ddydd i Ddydd ym mhob AALI am rhwng 1-5 diwrnod yr wythnos**

I geisio am y swyddi uchod plis galwch 02920 494560 am ffurflen gais.

## ~ SWYDDOGION Y LLOFFWR ~

### Cadeirydd

Gwenda Rees

Tŷ Nant

42 Parc Pencrug

Llandeilo SA19 6RZ

☎ (01558) 823546

### Uwch Olygydd

J. Mansel Charles

Sarn Gelli

Llanegwad, Nantgaredig

Caerfyrddin, SA32 7NL

☎ (01558) 668823

☎ (07970) 031888

✉ [yloffwr@papurbro.org](mailto:yloffwr@papurbro.org)

### Trysorydd

Owain Siôn Gruffydd

☎ (01558) 825336

### Swyddog Hysbysebion

Wyn Williams

☎ (01550) 777834

### Swyddog Gwerthiant a

### Thanysgrifio

Peter Harries

☎ (01558) 823075

### Ysgrifennydd

Rhian Morgan

☎ (01550) 777107

### Golygydd y mis

**Ionawr/Chwefror 2010**

Mared Tomos

### Cyfranwyr rheolaidd

*Y Gorlan Grefyddol*

Parch Lynn Evans

Nigel Davies

*Hwyl yn yr Ardd*

Hywel Jones

*Llecyn Llên*

T.M.Thomas

*Chwaraeon*

David Dyer

*Tudalen y Plant*

Daniel Thomas

*Croesair*

Handel Jones (Agrestis)

### Ffotograffydd

Gareth Vaughan Jones

☎ (01267) 220801

### Prawfddarlenn

Elin Bishop

Len Richards

### Teipio a Chysodi

Menter Bro Dinefwr

☎ (01558) 825336

### Argraffu

Lewis Argraffwyr, Caerfyrddin

## Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Sponsored by  
Welsh Assembly Government



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD



[www.bwrdd-yr-iaith.org.uk](http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk)

## DYDDIAD CAU

Rhaid i ddeunydd *Lloffwr* Mawrth fod yn nwylo'r Uwch Olygydd cyn 18 Chwefror, 2010

**RHAID I'R CYFRANIADAU FOD YN GYMRAEG**

Croesewir cyfraniadau ar e-bost os yw hynny'n bosibl

**[yloffwr@papurbro.org](mailto:yloffwr@papurbro.org)**

Nid yw'r Lloffwr o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir ym mhob un o erthyglau'r papur





## ~ DIGWYDDIADUR ~

## Ionawr 2010

- 14 Gyrfa Chwist C.Ff.I. Llanfynydd yn Nhafarn Penybont, Llanfynydd. 7.30pm. Galwr: Diane Mosey.
- 15 Noson Bingo yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. 7.30pm. Galwyr: Bevan Williams a Jean Evans.
- 17 Gwasanaeth y Plygain yn Eglwys Crist Caerfyrddin. 7pm
- 19 Cylch Cinio Cymraeg Llanymddyfri yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri. 7.30pm. Siaradwr gwadd: Twynog Davies, Llambled. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno.
- 20 Noson Bingo gydag arian yn wobrau yng Nghaffi Mart Caerfyrddin. 7.30pm. Trefnwyr: Cangen Sir Gâr o'r elusen amaethyddol R.A.B.I.
- 22 Gyrfa Chwist yn Neuadd Goffa Salem am 7.30pm. Galwr: Ivor Davies.
- 23 Cyngerdd yng nghwmni Cerddorfa Siambr Llanbedr Pont Steffan ynghyd ag Anne Startup (clarinet) yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. 7.30pm.
- 25 Noson yng nghwmni'r Prifardd Tudur Dylan yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers 7.30pm.
- 26 Cyfarfod Blynnyddol Y Lloffwr yn Ffestri Capel Newydd, Llandeilo am 7pm. Croeso cynnes i bawb.
- 28 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo yn Yr Hydd Gwyn am 7.30pm. Siaradwr gwadd: Nerys Evans A.C. Enwau i Mansel Charles ar (01558) 668823.
- 29 Clwb Ffermwyr Ifanc Llandeilo yn trefnu: Pantomeim Bois Garn Fach yn yr Hydd Gwyn, Llandeilo. 7.30pm. Addasi'r teulucyfan. Tocynnau: Oedolion £5.00. Plant/Pensinwyr £3.00. Lis (01558) 822254; Arwel 07753271389 neu Llio 07973424492
- 30 Gyrfa Chwist yn Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri. 7.30pm. Galwr: Heulwen Jones, Bethlehem.
- 31 Gwasanaeth Y Plygain yn Eglwys Sant Teilo, Llandeilo gyda lluniaeth i ddilyn. 6.00pm.

## Chwefror


- 4 Drama gan Gwmni Troedyrhiw yn Neuadd Pumsaint.
- 5 Eisteddfod Tabernacl Ffair-fach. 3.15pm. Rhaglen ar gael gan Doreen Jenkins ar (01558) 822690 neu ar wefan [www.steddofa.org](http://www.steddofa.org)
- 5 Steve Eaves a'r band yng Nghlwb Rygbi Llandeilo. 7.30pm. Tocynnau: Oedolion £8.50. Ieuencid/Pensiynnwyr a'r di-waith £6.50. Cysylltwch â Llio 07973424492 neu Siop y Pentan (01267) 235044. Elw'r noson tuag at Aelwyd Dyfan.
- 13 Gyrfa Chwist Merched y Wawr yn Neuadd Pumsaint. 7.30pm. Galwr: Beti Davies, Llansawel.
- 15-18 Cystadlaethau Drama ac Adloniant C.Ff.I. Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.
- 20 Noson o Ddramau gan Gwmni Drama Cudyll Coch, Llandeilo yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. 7.30pm.
- 25 Clwb Cinio Cymraeg Llandeilo a'r cylch yn Yr Hydd Gwyn, Llandeilo. 7.30pm.
- 27 Cawl a Chân yng Nghanolfan Felin-gwm. 7.00pm. Llywydd: Parch. Philip Johnes, Pontargoithi.
- 27 Gyrfa Chwist yn Yr Ystafell Ddarllen, Cwrt Henri. 7.30pm.

## Mawrth

- 5 Noson i Ddathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Maer Llanymddyfri, Helen Lovell yng Ngwesty'r Castell, Llanymddyfri. 7.30pm.
- 12 Eisteddfod Fach Capel Dewi i ddechrau am 7.00pm.
- 20 Cyngerdd yng nghwmni Côr Meibion De Cymru yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers. 7.30pm.
- 26 Eisteddfod gyd-enwadol Pontargoithi a'r cylch yn Neuadd Goffa Pontargoithi.

## ~ CROESAIR ~

gan Agrestis



## Ar Draws

1. Dwy ffyring (5)  
4. Cymysgedd o blwm ac alcan i asio metelau (4)  
7. Canwr poblogaidd (Anagram: Band y bol) (3,5)  
8. Teclyn i afael yn dynn yn rhywbeth (4)  
9. Gweler 5 i lawr  
10. Adda ac Efa oedd y rhai cyntaf, mae'n debyg (7)  
11. Safbwynt (4)  
12. Llinyn main (4)  
15. Gweler 17  
17, 15. Canwr poblogaidd o Solfach (4, 7)  
20. Bachgen yn canu anthem yr Eidal (4)  
21. Rhannu ymhlith nifer (8)  
22. Mwy nag un gewyn (4)  
23. Mae nerth yn hwn (5)

## I Lawr

1. Dwyn cyw allan o'r ôl (5)  
2. Llauer o laid (3,4)  
3. Merch yn gwnio label (4)  
4. Math o esgid (6)  
5,9. Rydym yma o hyd, yn ôl y canwr poblogaidd hwn (5,4)  
6. Dileu (6)  
11. Cau crys neu siaced (6)  
13. Difeddl (7)  
14. Tynnu aer i'r ysgyfaint (6)  
16. Cyfansoddwr Aida a Rigoletto (5)  
18. Bydd cŵn a'r rhain yn ymladd â'i gilydd (5)  
19. Mab hynaf Isaac (4)

Cystadleuaeth agored - cynigir gwobr y mis hwn eto.

Atebion at yr Uwch Olygydd cyn **18 Chwefror 2010**

ENW:.....

CYFEIRIAD: .....

FFÔN: .....

## ENILLYDD CROESAIR RHAGFYR:

Neb Yn Deilwng

## ATEBION

**Ar Draws:** 1. Coblyn 4. Tegan 7. Astrus 8. Deildy 9. Nage  
10. Fesul dau 12. Diwydiannau 17. Sbarduno 19. Awen 20.  
Diofal 21. Siandi 22. Gwasg 23. Enfawr

**I Lawr:** 1. Cwstard 2. Berfenw 3. Ymsefydlu 4. Taeru  
5. Gwladfa 6. Nwyfus 11. Sialotsyn 13. Isadora 14. Niagara  
15. Ucheldir 16. Asidig 18. Draig



## ~ HYSBYSEBION ~

### JOHN ANTHONY

CERFLUNWYR  
COFADEILIAU  
a SEIRI MAEN



a'i Gwmni

Perch. E. J a  
N. Gimblett  
(C. Harry gynt)

24 STRYD FAWR, RHYDAMMAN

☎ (01269) 596227 Nos: 592935

*Cerflunwyr Cofadeiliau yn y lle uchod ers 1920 hefyd yn*

123 STRYD RHOSMAEN, LLANDEILO

☎ (01558) 823104

Cysylltwch â Gerwyn Davies yn Swyddfa'r  
NFU Mutual yn Llandeilo ar 01558 823382



**Am wasanaeth  
lleol o safon -  
yswiriant  
pensiynau a  
buddsoddiadau**

### ALUN DAVIES

#### ADEILADWR

*Cilgawod, Caio, Llanwrda, Sir Gâr, SA19 8PG*

☎ 01558 650570 [Cartref] / 07974 716211 [Symudol]  
e-bost: [alundavies1@hotmail.com](mailto:alundavies1@hotmail.com)

Ar gyfer pob math o waith adeiladu, cartrefi newydd,  
atyniadau, estyniadau, adnewyddu ac adfer adeiladau  
cofrestredig, toeon a simneau, ffenestri a drysau PVC

**Am wasanaeth heb ei ail a chreffftwaith o safon.**

### JONES TELEVISION

**Gwerthu, Rhentu a Gwasanaeth Domestig**

☎ Nantgaredig (01267) 290372 / (01267) 290573

*Eich busnes annibynnol lleol lle mae gofal cwsmer yn  
cael ei warantu - dosbarthu am ddim (hyd at 30 milltir)*

**Teledu, Fideo, Peiriannau Golchi a Sychu  
Systemau Hi-fi, Oergelloedd a Rhewgelloedd**

Gosod am ddim i bwyntiau sy'n bodoli eisoes  
HOTPOINT - PHILIPS - SIEMENS - BOSCH

JVC - HOOVER - CANNON - DIMPLEX

~ SEFYDLWYD 1797 ~

### D. LLOYD A'I FEIBION

GLANRWYTH, PUMSAINT, LLANWRDA

☎ (01558) 650209 a 650451

Ffacs: 01558 650440

*Masnachwyr coed a nwyddau adeiladu,  
a ffensio o bob math.*

*Glo caled a glo meddal o'r ansawdd gorau.*

### HAYDN ADAMS PEINTIWR A PHAPURWR

10 Heol y Frenhines,

Llanymddyfri,

Sir Gâr



01550 721754 / 07776 036642

### SIOP Y PENTAN

*Y dewis gorau o lyfrau  
casetiau a chardiau Cymraeg*

Y FARCHNAD  
CAERFYRDDIN

☎ (01267) 235044

### WILLIAM I. PHILLIPS

DERWENDEG, LLANSAWEL

☎ (01558) 685446

Symudol 07836598989

CONTRACTWR CLUDIANT

CYNNYRCH CHWAREL

### NEW ROAD GARAGE

☎ (01550) 720836

Gwerthir petrol a diesel yma

*Wedi Torri Lawr? Ffoniwch Ni!*

*Unrhyw amser o'r dydd neu'r nos*

Pob math o wasanaeth moduron a  
gwaith atgyweirio ffrâm

### CHECKPOINT



☎ (01558)  
650338

*'Tyres, Exhausts a  
Batteries'  
Profion M.O.T*







# ~ TUDALEN Y PLANT ~

Helo!

Elis yr Estron ydw i ac fe fydda i ar dudalen y plant bob mis o hyn allan. Gobeithio cawsoch Nadolig llawen a bod Siôn Corn wedi dod â llawer o anrhegion i chi. Mwynhewch yr holl weithgareddau rwyf wedi gosod i chi ar y dudalen hon.



Helpwch Elis i gyrraedd ei long ofod



Hwyl, Elis

## Lliwiwch Y Llun



Enillydd y mis diwethaf oedd:  
Nel Davies, Llandybie, 2½ oed.

Anfonwch eich atebion at

Elis, Menter Bro Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo erbyn 18 Chwefror, 2010.



## ~ HYSBYSEBION ~

**AQUAFIX WATER & ELECTRICAL LTD**

**ARBENIGWYR MEWN SYSTEMAU  
DŴR GLÂN A BRWNT**

**☎ 01269 841 800 / 07814 027 045**

**Ffoniwch  
Wayne,  
Gareth  
neu Jean**

**RYDYM WEDI SYMUD I GORSLAS**

Uned 6, Stad Ddiwydiannol Gorslas,  
Gorslas, Sir Gâr



3 Gardd Llydaw,  
Lôn Jackson, Caerfyrddin  
01267 231133  
siop@t-hwnt.com  
www.t-hwnt.com

Dewis eang o gardiau, cerddoriaeth a llyfrau  
Crysau Cowbois, Celtaes, Canys Rufus, Shwl-di-Mwl  
Archebion a gwasanaeth post

**L.J. BAILEY A'I FEIBION**

LLANGADOG (Siop Fwydydd MACE)

*Prisiau cystadleuol*

*Pob math o gig a bacwn o ansawdd da  
Gwasanaeth rhagorol bob amser*

☎ (01550) 777217 [Bwydydd]

☎ (01550) 777242 [Cigydd]



Cangen Pumsaint, Broneb Stores  
Pumsaint, Llanwrda, Sir Gaerfyrddin  
☎ (01558) 650215

AM EICH HOLL NWYDDAU  
AMAETHYDDOL CYSYLLTWCH Â NI.

Masnachwyr Amaethyddol  
Agricultural Merchants



Am fusnes cyfeillgar, teuluol,  
profiadol yn y byd amaethyddol,  
heb os, i'ch stoc cewch fwydydd  
maethlon yn W.D. a sylw prydlon.

**RED DRAGON ATV'S Y DDRAIG COCH**

Ffarmers, Llanwrda

**BEICIAU NEWYDD, TELARS**

**RHANNAU, GWASANAETH**

Dewch ata i gyda'ch Honda ATV

**Ffoniwch Irfon ar (01558) 650740**

**GERAINT WILLIAMS**

Modurdy Rhosybedw  
Ffaldybrenin

Gwasanaeth cyrff moduron ar  
gyfer gwaith yswiriant neu breifat

☎ (01558)

**650609**

Profion MOT, Batteries,  
Exhausts

Gwasanaeth Adfer  
ac Atgyweirio

**D. L. WILLIAMS**

Iard Pant-yr-Esgair, Talylychau, Llandeilo

*Masnachwr llechi a phob math o goed*

Bwyd anifeiliaid Bibby

☎ (01558) 685217 (dydd) / 685722 (nos)

**ADEILAD CLADDINGS**

(EIRIAN DAVIES)

Y Stordy, Heol yr Orsaf, Llanwrda

☎ (01550) 777497

Zinc sheets a steel girders, arbenigwyr mewn toeon crwn

**CYNLLUNIAU**

*Ar gyfer Tai Newydd, Estyniadau a Grantiau*

**MARTIN WATTS**

Maesyreos, Llanwrda, Sir Gâr

Ffôn: Llangadog (01550) 777591

**A & B Plant & Tool Hire**

BRYNDOLAU, FFARMERS

LLANWRDA, SIR GÂR

SA19 8JP

**ARAGOR**

LLUN - GWE 8.00 - 5.30

SAD 8.00 - 1.00

**FFÔN PUMSAINT. 01558 650536**

**FFAC S PUMSAINT. 01558 650516**

**CARPEDI  
PUMSAINT**

Gwasanaeth gosod carpedi  
hen, ail-osod neu newydd

Ffoniwch Alun  
(01558) 650364  
neu 07977 121201

AXMINSTERS, WILTON,  
TWISTS, GWLAN, CORDS,  
CUSHIONFLOOR,  
UNDERLAYS

**"Carpedi i Siwtio Pawb"**

Gellir trefnu ymweliad â'r  
cartref gyda samplau.

**Roger Davies  
LLOGI PEIRIANNAU**

Gwnawn unrhyw waith -  
bach neu fawr

20 mlynedd o brofiad

☎ (01558) 685614

☎ 07968 838467

Peiriannau turio â thraciau 5-15 tunnell.

Pob math o waith sylfeini, ar gyfer ceffylau, tirlunio  
draeni ac unrhyw waith arall gyda pheiriannau  
trymion.

Cwmgolygfa, Rhydcymerau,  
Llandeilo, Sir Gâr, SA19 7RP



## ~ BYD NATUR ~

**Croeso i'r ardd**

I ddathlu ei phen-blwydd yn 10 oed, mae ymweliadau â **Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru** yn rhad ac am ddim i bawb trwy gydol Ionawr. Mae cyfres o ddigwyddiadau wedi'u trefnu trwy gydol y mis fel rhan o'r dathliadau, sy'n cynnwys ffair fwyd; penwythnos crefftiau pren; penwythnosau gwyllo adar RSPB a chyflwyniadau a theithiau o amgylch yr Ardd a'r Warchodfa Natur Genedlaethol.

Cynhelir gŵyl fwyd a diod lleol dan dô ar dir Tŷ Gwydr Enfawr yr Arglwydd Foster ar 30-31 Ionawr.

Bydd gwneuthurwyr teganau a llwyau caru yn y Tŷ Gwydr Enfawr yn ystod y Penwythnos Crefftiau Pren ar 23 – 24 Ionawr.

Bydd dau Benwythnos Gwyllo Adar arbennig a drefnwyd gan y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar. Ar 9-10 Ionawr bydd cyfres o deithiau cerdded yn ogystal â chyflwyniadau ar sut i fwydo adar a sut i'w denu i mewn i'ch gardd. Bydd arbenigwyr adar yn cynnal ail benwythnos o ddigwyddiadau ar 30-31 Ionawr i ddathlu digwyddiad Gwyllo Adar blynyddol y RSPB.

Yn ogystal â hyn, bydd yna weithgareddau arbennig ar gyfer y teulu cyfan yn y Tŷ Gwydr Enfawr bob penwythnos yn ystod Ionawr.

Bydd yna fwydlen arbennig ym Mwyty'r Tymhorau. Yn ystod Ionawr bydd yna ginio rhost ar ddydd Sul; ffair Gymreig bob dydd Llun; Bwydlen Brydeinig bod dydd Mawrth, cyri bob dydd Mercher; diwrnod Mediteranaidd ar ddydd Iau; pysgod ar ddydd Gwener; a Phrydau Arbennig y Cogydd bob dydd Sadwrn. Bydd dewis llysieuol ar gael bob dydd.

Dywedodd Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu'r Ardd, David Hardy: "Mae yna ddigon o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal trwy gydol blwyddyn ein pen-blwydd ond rydym ni'n dechrau'r flwyddyn yn hael gyda mynediad rhad ac am ddim i bawb ym mis Ionawr."

**Rhoi'r darlun cyflawn i'r plant**

Cyn bo hir, fe fydd plant ar hyd a lled Cymru sydd ag anghenion cymorth dysgu yn brys yn tynnu lluniau o'u hamgylchedd lleol fel rhan o fenter newydd. Bwriad y fenter yw eu helpu i edrych o'r newydd ar y rhyfeddodau naturiol sydd o'u cwmpas.

Fe fydd prosiect 'Y Llyn Mawr', dan arweiniad Ymddiriedolaeth Adfywio Treftadaeth Sir Gaerfyrddin, yn mynd â'r plant a'u camerâu i lecynnau hardd yn yr ardal, gan gynnwys Coed y Llwyn Helyg, Porthladd Neyland, Y Rhath, Dociau Aberdaugleddau, a thraethau Dale a Bae Gelliswick.

Yna, bydd y myfyrwyr yn dewis deg o'u hoff luniau er mwyn eu cynnwys mewn arddangosfeydd lleol. Yn y pen draw, fe fydd yr arddangosfeydd yn cael eu dychwelyd i'r ysgolion.

Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, fe fydd y prosiect yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc rhwng 10 a 18 mlwydd oed mewn deg o wahanol ysgolion. Cheryl Kitt, Rheolwraig y Prosiect, a Ken Day, ffotograffydd tirluniau lleol, fydd yn helpu'r athrawon.

Trwy gwblhau'r prosiect, fe fydd modd i'r myfyrwyr ennill cymhwyster y Rhwydwaith Coleg Agored sydd wedi'i achredu gan y Llywodraeth. Caiff y prosiect grant gan y Gronfa Loteri Fawr a'r Cyngor Cefn Gwlad.

Mae Ysgol Gyfun Pantycelyn, Llanymddyfri ac Ysgol Rhys Prichard, Llanymddyfri ymhlith yr ysgolion a fydd yn rhan o'r cynllun.

**BRIWSION O'R BUARTH**

gan Y Lloffwr Bach

Wrth fwynhau mwgyn o flaen y tân un noson oer beth amser yn ôl, dechreuais feddwl am y modd y mae'r iaith wedi'i chyfoethogi gan ddywediadau sy'n deillio o'r byd amaethyddol.

Cychwyn y cyfan oedd pwl o beswch ar ôl llyncu gormod o fwg. Roeddwn yn **carthu** fy ngwddf, yn union fel y byddaf yn ei wneud i'r beudy bob bore a nos.

Pan ddywedwn fod rhywun wedi **godro** syniad, mae'n gyfystyr â dweud ei fod wedi ymwneud â phob agwedd ar y syniad hwnnw, heb adael unrhyw bosiblwydd ar ôl. Dyna yw godro yn y beudy hefyd, sef tynnu llaeth o gadair y fuwch hyd at y diferyn olaf.

Byddai fy hen gyfaill Benji Tan-y-bwlch yn arfer dweud fod ei gymydog yn **godro mwy nag un fuwch**. Doeddwn i ddim yn deall hyn i ddechrau oherwydd dim ond defaid oedd gan y cymydog hwnnw, a byddai hefyd yn gosod ambell ddarn o dir. Yna sylweddolais taw'r hyn roedd Benji'n ei olygu oedd bod y gŵr bonheddig yn derbyn incwm o sawl ffynhonnell.

Dywediad arall sy'n ymwneud â godro yw disgrifiad o lywydd cyngerdd neu eisteddfod sy'n fyr ei eiriau ond yn hael ei gyfraniad ariannol. Dywedir ei fod yn **brefu ychydig ac yn godro'n dda**.

Os ydych chi'n cadw ieir, fe wyddoch yn union pam y bydd rhywun â golwg anniben a diflas arno'n cael ei gymharu ag **iâr ar y glaw**. Mae ieir yn casáu glaw yn fwy na dim, ac os digwydd iddyn nhw gael eu dal mewn cawod, mae'r olygfa'n un o'r rhai mwyaf truenus a welwch erioed.

Mae yna ddwsinau lawer o ddywediadau eraill y gallwn eu crybwyll, ond gadawaf y rheini tan rywbyrd eto. Terfynaf y tro hwn, gyda diolch unwaith eto i Elfyn Davies, Troed-y-bryn, Ffarmers. Mewn neges ataf, dywed fod Ieuan Williams, Abermangoed, Cwrt-y-cadno wedi sôn wrtho am eiriau nad ydynt yn cael eu defnyddio lawer erbyn hyn. Un o'r geiriau hynny yw **whimlad**. Roedd yn colio am ffermwr arall o'r ardal, William Jones, Ty'n-llwyn, yn defnyddio'r gair yn y cyswllt 'Mi gath ei ddal yn erbyn y wal fel nad o'dd whimlad ynddo'. Hynny yw, roedd yn methu symud.

Hefyd, cofiai ei dad yn dweud wrth y plant am beidio â **melffyst**, hynny yw, am beidio â mela neu ffidlan. Mae'r ddau air hyn yn hollol ddiarth i fi. Hoffwn yn fawr gael unrhyw oleuni ar eu hystyron.

**'Byw yn yr Ardd' 2010**

Mi fydd y drydedd gyfres o 'Byw yn yr Ardd' yn ôl ar y sgrîn ar S4C yn gynnar yng Ngwanwyn 2010 yng nghwmni Russell Jones, Bethan Gwanas a Sioned Rowlands.

Ydych chi'n adnabod unrhyw arddwyr diddorol neu wedi dod ar draws unrhyw erddi prydfarth neu gwahanol? Oes gyda chi stori sydd â chysylltiad garddwriaethol i'w rhannu? Mae croeso i chi gysylltu gyda 'Byw yn yr Ardd' ar (01248) 671167 neu trwy'r e-bost ar [post@bywynyrrardd.net](mailto:post@bywynyrrardd.net)





18 Stryd Caerfyrddin,  
Llandeilo  
SA19 6AE  
(01558) 823658



22 Stryd y Cerrig,  
Llanymddyfri  
SA20 0JP  
(01550) 720500

**Dr Rhys Ap Delwyn Phillips**

B.D.S., MSc., M.F.G.D.P.

**Dr Aimee Jones**

B.D.S. Caerdydd

**YN DATHLU 30 O FLYNYDDOEDD**

**O WASANAETH DEINTYDDOL**

**TEULUOL TRADDODIADOL**

**YN COFRESTRU CLEIFION NEWYDD**

### Gwasanaeth Y Plygain

Mae rhai o drigolion bro Dinefwr yn trefnu Gwasanaeth y Plygain a gynhelir yn Eglwys Sant Teilo, Llandeilo ar nos Sul, 31 Ionawr am 6.00pm. Estynnir croeso cynnes i bartion ac unigolion o bell ac agos i gymryd rhan, ond wrth gwrs mae'r oedfa'n agored i bawb o bob enwad.



*Llun Côr y Plygain o Landeilo dan arweiniad Rhian Morgan sydd wedi bod yn canu mewn canolfanau crefyddol adeg y Nadolig ers rhai blynyddoedd.*

### Hen Garolau Plygain

Trot y Gaseg, Y Ceiliog Gwyn, Dyddiau Hyfryd - dyna enwau swynol rhai o'r ceinciau cenid yr hen garolau plygain arnynt. Mae rhai ohonynt yn dal yn boblogaidd heddiw, eraill yn haeddu cael eu codi o'r llwch a'u canu gan genhedlaeth newydd o garolwyr. Mae'r Lolfa newydd gyhoeddi argraffiad newydd o Hen Garolau Plygain, casgliad y diweddar Geraint Vaughan-Jones. Beth yn well i'w thrysori na charolau Nadolig unigryw ein cenedl? Dyma gyfrol na ddylai'r un aelwyd fod hebddi.

Cofiwch nad yw tymor canu carolau yn gorffen tan 2 Chwefror, dydd Gŵyl Fair y Canhwyllau, felly daliwch ati i ganu'r hen garolau hyfryd hyn.

Pris: £7.95.

### Ar-lein

Wyddoch chi am wefan y Bywgraffiadur Cymreig Ar-lein sy'n cynnwys bywgraffiadau ar bron i 5,000 o Gymry o oes Cunedda hyd at 2008?

Mae'n cynnwys gwleidyddion, llenorion, chwaraewyr rygbi a 'chymeriadau'. Yn wahanol i rai gwefannau, mae hefyd wedi ei olygu'n awdurdodol gan Dr Brynley Roberts, cyn-Lyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

<http://yba.llgc.org.uk/cy/index.html>

### Gwersylloedd Menter Ieuencid Cristnogol (Sir Gâr).

i) Cynhelir gwersyll yr Ysgolion Sul yn Llangrannog ar Chwefror 15-17. (Plant Bl.4-7). Pris arbennig o £72 i eglwysi sy'n aelodau o M.I.C. (Eraill £92.50). Trefnir bws.

ii) Cynhelir gwersyll i bobl ifanc (Bl. 7-11) yn Nhrefeca ar Chwefror 19-21. Pris arbennig o £48. Bws am ddim i eglwysi sy'n aelodau o M.I.C. (Eraill £10).

Cyfle ardderchog am wyliau Cristnogol cyffrous. Am fanylion pellach cysyllter â Nigel Davies ar (01994)230049 neu mic@uwclub.net

trywydd

Gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol  
am bris cystadleuol

#### Gwasanaethau Iaith

- cyfieithu ar y pryd
- cyfieithu ysgrifenedig
- golygu a phrawf-ddarlenn

#### Gwasanaethau Ymgynghorol

- hyfforddiant
- ymchwil
- rheoli prosiectau

#### Llogi Offer

- cyfieithu ar y pryd
- sain a goleuo
- cynadledda

Trywydd  
Y Llwyfan, Heol y Coleg  
Caerfyrddin SA31 3EQ

ffôn 01558 825336  
ffacs 01558 825339

post@trywydd.co.uk  
www.trywydd.co.uk

Un o wasanaethau

Menter Bro Dinefwr





## ~ Y GORLAN GREFYDDOL ~

**Y Golofn Grefyddol****Stori Jacob – Bethel a Peniel**

Un rheswm paham mae'r Hen Destament o hyd yn creu diddordeb ac yn dal ein sylw yw'r ffaith ei fod yn rhoi portread byw o'r natur ddynol; yn goleuo yn llachar rhinweddau a gwendidau sydd yn gorwedd yn y llu o gymeriadau yn y Gyfrol Sanctaidd.

Dyma'r llyfr sydd fel rhyw 'Belydr X' arnom, yn ein dadansoddi yn gywir, ac yn dod i'r amlwg y frwydr ddiddiwedd rhwng y da a'r drwg yng nghalon pob un ohonom.

Ac mae'r cymeriadau a bortreadir yn gymysgedd – y cyfiawn a'r anghyfiawn – ac yn eu plith JACOB. Ac yn stori Jacob mae yna ddau le sydd yn arwyddocaol yn ei fywyd – BETHEL a PENIEL – oherwydd y profiadau ysbrydol a gafodd yno.

Ym Methel rydym ni'n gweld Jacob, yn ei sefyllfa a'i ymddygiad, mor debyg i'r rhan fwyaf ohonom yn wynebu blwyddyn newydd. Pan ddaeth yno yr oedd yn agor pennod newydd yn ei fywyd. Tu ôl iddo yr oedd yna orffennol yr oedd am anghofio – twyll o'i dad oedrannus a dall, a hefyd ei driniaeth o'i frawd hynaf, Esau.

Mae Jacob yn codi allor ac yn gwneud adduned: *“Os Duw fydd gyda myfi... os a'm ceidw yn y ffordd yma... a rhoi i mi fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo... yna bydd yr Arglwydd yn Dduw imi”*. Bargeinio gyda Duw. Ac rydym ni'n teimlo ar unwaith nad oes yna unrhyw werth yn yr adduned yma. Nid yw'n anrhydeddus. Yr un Jacob sydd yma, yn llawn cyfrwystra a thwyll.

Mae llawer o'r addewidion yr ydw i a chi'n eu gwneud ar ddechrau blwyddyn newydd, hwyr neu hwyrach, yn ein gadael ni. Rydym ni wedi mynd yn ôl i'r hen bechodau, i'r hen arferion. Yr ydym yn yr un sefyllfa yn gywir â Jacob pan gododd yr allor frysio ym Methel.

Ond mae'r stori yn newid yn gyfangwbl. Fe gafodd Jacob ei hunan nid ym Methel mwyach, ond yn PENIEL. Yma fe welodd Duw wyneb yn wyneb, ac yn y diwedd yn ymroi'n llwyr iddo. Ym Mheniel fe ddaeth Jacob yn ddyn newydd. Fe adawodd Jacob y lle fel un oedd wedi ei fendithio gan Dduw.

Beth sydd eisiau arnom i gyd yn 2010 os ydym yn bwriadu gwneud a chario allan ein addunedau da a gwerthfawr yw profiad o BENIEL yn ein bywyd.

*Rho fwy o gariad at dy waith*

*Rho fwy o sêl bob cam o'r daith*

*Ar bethau'r tŷ rho fwy o flas*

*Y FLWYDDYN HON rho ras am ras.*

(Elfed)

**Parch. Lynne Evans**

**Menter Ieuenctid Cristnogol (Sir Gâr)****Cwis Beiblaidd**

Ym mis Medi eleni ffurfiwyd Menter Ieuenctid Cristnogol (M.I.C.) mewn ymateb i ddymuniad gan eglwysi anghydfurfiol Sir Gaerfyrddin am gefnogaeth i ddatblygu gwaith ymhlith plant ac ieuenctid. Prif nod y Fenter newydd yw hybu tystiolaeth yr efengyl ymysg yr ifanc a hynny mewn ffyrdd cyfoes a pherthnasol ar gyfer ein hoes.

Yn ddiweddar, trefnwyd cwis Beiblaidd ar gyfer plant ac ieuenctid Sir Gaerfyrddin gyda rowndiau rhagbrofol yn arwain i fyny at rownd derfynol. Mewn cyfnod pan fod gwybodaeth Feiblaidd yn rhinwedd prin yn ein cymdeithas, mor wych oedd hi i weld plant a phobl ifanc ar draws yr ystod oedran o 6 i 17 oed yn cymryd rhan gyda brwdfrydedd.

Defnyddiwyd yr offer diweddaraf gan gynnwys PowerPoint, bysyrs electronig a meicroffonau gan roi delwedd broffesiynol a chyfoes i'r achlysur. Yn y rownd derfynol, trefnwyd y cwis ar ffurf y rhaglen deledu boblogaidd, “Who Wants To Be A Millionaire?” Cafwyd cystadleuaeth ddifyr a hynod o gyffrous, heb sôn am y tensiwn, wrth i rai timoedd gyrraedd lefel uchel ac wrth i'r ffôn symudol gael ei ddefnyddio i ymgynghori gyda ffrind.

Yn cymryd rhan yn y rownd derfynol oed cynradd oedd:

Providence, Llangadog (Dwyrain Sir Gâr)

Clwb Hwyl Hwyr, Rhydaman (Dwyrain Sir Gâr)

Clwb Plant Y Brenin, Caerfyrddin (Gorllewin Sir Gâr)

Ysgol Sul Hermon, Cynwyl Elfed (Gorllewin Sir Gâr),

Yn cymryd rhan yn y rownd derfynol oed uwchradd oedd:

Calfaria, Penygroes (Dwyrain Sir Gâr)

Clwb Hwyl Hwyr, Rhydaman (Dwyrain Sir Gâr)

Penuel, Caerfyrddin (Gorllewin Sir Gâr)

Y Babell, Pensarn (Gorllewin Sir Gâr)

Cael hwyl wrth gymryd rhan oedd y peth mawr, ond yn sgîl hynny, mae'n amlwg bod y plant a'r bobl ifanc wedi dysgu llawer, a gobeithio magu blas tuag at Air Duw.

Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Oed cynradd:

*1af – Providence, Llangadog*

*2ail – Ysgol Sul Hermon, Cynwyl Elfed*



*Llun tîm Providence, Llangadog - Linda Williams (athrawes); Steffan Thomas; Hannah Doel; Elen Fflur Davies; Gwenllian Jenkins.*

Oed uwchradd:

*1af – Penuel, Caerfyrddin*

*2ail – Clwb Hwyl Hwyr, Rhydaman*

Cyflwynwyd gwobr i bawb a wnaeth gymryd rhan yn y cwis gyda thlysau sialens a thlysau unigol i'r timoedd hynny a wnaeth gyrraedd y brig.

Dymuna M.I.C. nodi gwerthfawrogiad o'r defnydd a gafwyd o'r capel a'r festri yn Y Priordy, Caerfyrddin dros ddwy noson ac o garedigrwydd chwiorydd y capel yn darparu lluniaeth ar gyfer y timoedd. Diolch hefyd i'r Cyngor Ysgolion Sul am y defnydd o'r bysyrs electronig ac i llogioffer.com am ddarparu'r meicroffonau a'r sytem sain. **Y fenter nesaf a drefnir gan M.I.C bydd gwersylloedd i blant.** Am fanylion pellach neu ffurflen gofrestru cysylltwch â Nigel Davies ar (01994) 230049 neu e-bost [mic@uwclub.net](mailto:mic@uwclub.net)



## ~ LLECYN LLÊN ~

### Cystadleuaeth

Dyma'r atebion i gystadleuaeth mis Tachwedd.

1. Gwenallt oedd awdur y cyfrolau o farddoniaeth, 'Eples', 'Ysgubau'r Awen,' a 'Gwreiddiau'.
2. Gwedd i'r Parch. Eli Jenkins yn 'Under Milk Wood' gan Dylan Thomas ydyw'r penillion hyn.
3. Delyth M. Morgan yw awdur y gyfrol 'Cydymaith i Ganeuon Ffydd'. Mae'n rhoi cefndir yr emynau a'u hawduron. Hi yw ysgrifennydd Cymdeithas Emynau Cymru.
4. Ar fynydd Rushmore yn Dakota, UDA ceir wynebaw pedwar o gyn-lywyddion wedi'u cerfio o'r graig, 500 troedfedd i fyny'r mynydd, a phob wyneb yn 60 troedfedd o uchder, sef Washington, Lincoln, Jefferson a Roosevelt.
5. Etholwyd Keir Hardie yn Aelod Seneddol Llafur cyntaf Cymru ym Merthyr Tudful ym 1900.
6. Gyda'r rheol arferol yn gofyn am gerdd â dim cynganedd, heb ei rhoi i mewn yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod y Bala, enillodd Ceri Wyn Jones y Goron am gerdd mewn cynganedd lawn.
7. O dan gyfraith Hywel Dda yn y ddegfed ganrif, rhoddwyd yr hawl i ferched priod i berchen eiddo. Wedi uno Cymru a Lloegr, o dan gyfraith Lloegr, ai holl eiddo'r wraig i'w gŵr. Ni adferwyd yr hawl hwn i ferched hyd ganol yr ugeinfed ganrif.
8. Y Gynganedd Draws a geir yn y ddwy linell :  
Rhwyfodd ar draws yr afon.  
Cerdded a wnaeth i'r cyrddau.
9. Yr Apostol Paul oedd awdur y rhan fwyaf o Lyfrau'r Testament Newydd. Rhain oedd ei lythyrau at y deg Eglwys a sefydlodd, aci'w gymdeithion Titus, Timotheus a Philemon.
10. Rhoddwyd yr hawl i ferched i bleidleisio am y tro cyntaf gan David Lloyd George, pan oedd yn Brif Weinidog ym 1918.
11. Dyma'r englyn enwog i'r 'Ci Defaid' gan Thomas Richards.  
Rhwydd gamwr, hawdd ei gymell - i'r mynydd  
A'r mannau anghysbell,  
Hel a didol diadell  
Yw camp hwn yn y cwm pell.
12. Y ddwy gerdd fawr o waith y bardd Groeg, Homer, sy'n croniclo anturiaethau Odysseus wedi Rhyfel Caerdroea yw yr Iliad a'r Odyssey.

Y prif gampwr y tro hwn, unwaith eto, yw **Glenys Davies**, Y Dderwen, Manordeilo.

Beth yw'r atebion i'r cwestiynau hyn?

1. Pa flwyddyn y cynhaliwyd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen am y tro cyntaf?
2. Pa gyfraniad pwysig a wnaeth Syr John Morris-Jones i Gymru?
3. Pwy yw awdur y Cofiant i Gwynfor Evans?
4. Yr oedd gan Jochebed yn yr Hen Destament blant enwog iawn. Enwch hwy.
5. Yn ôl chwedlau'r Mabinogion, beth oedd yr anifeiliaid hynaf yn y byd?
6. Pa gerddores fyd-enwog a dreuliodd flynyddoedd olaf ei hoes yng Nghastell Craig y Nos?
7. Pa gymeriad yn nofelau Daniel Owen a wnaeth droi bysedd y cloc yn ôl a phaham?
8. Pa un o frenhinoedd Lloegr oedd yn dad-yng-nghyfraith i'r Tywysog Llywelyn Fawr?
9. Cysylltir y mannau canlynol a thri o emynwyr mawr Cymru, Cwmgogerdan, Maesylwm a Bethesda'r Fro. A llwch eu henwi?
10. Pwy enillodd brif wob y nofel, Gwobr Daniel Owen, am y nofel 'Y Llyfrgell' yn Eisteddfod Genedlaethol 2009?
11. Un o sonedau mwyaf cofiadwy barddoniaeth Saesneg yw :  
*Shall I compare thee to a summer's day,  
Thou art more lovely and more temperate,  
Rough winds do shake the darling buds of  
May, And summer's lease hath all too short a date.*  
Pwy oedd y bardd?
12. Am beth mae Sieffre o Fynwy yn enwog?

Atebion i **T.M.Thomas**, Tirallen, Llanwrda erbyn 10 Mawrth, 2010.

Cyfarfod Blynyddol **Y Lloffwr**  
yn festri Capel Newydd, Llandeilo  
ar nos Fawrth, 26 Ionawr. 7.00pm  
Croeso cynnes i bawb

### CYSTADLEUAETH!

Cyfle i ennill tocyn gwerth £10 i'w wario yn Siop y Cennen!  
Atebwch y cwestiwn isod a'i anfon at: Menter Bro Dinefwr,  
Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo SA19 6HW cyn  
18 Chwefror 2010.

**Pa ddau bentref y cysylltir â'r diweddar Hywel Teifi Edwards?**

**Ateb:**.....

**Enw:**.....

**Cyfeiriad:**.....

Ateb cystadleuaeth Rhagfyr oedd - 13 Rhagfyr 2009, a'r enillydd oedd - **Greta Walters**, Y Graig, Llanfihangel-ar-arth, Pencader.

### SWYDDOG DATBLYGU

Cyflog tua £17,000 + Pensiwn



### Cyfle cyffrous i weithio i ddatblygu'r Lloffwr yn ystod 2010

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig i ddatblygu'r papur yn cynnwys marchnata, diweddarau'r wefan, cysodi a dosbarthu.

Cynigir cytundeb blwyddyn yn y lle cyntaf. Lleoliad - Llandeilo.

Am ragor o wybodaeth neu gopi o'r disgrifiad swydd cysylltwch â Owain Gruffydd, Trysorydd y Lloffwr ar (01558) 825336/  
owaingruffydd@menterbrodinefwr.org

Dyddiad Cau : **2.00pm, 22 Ionawr 2010**

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau yn y swydd cyn gynted a phosib.



### SIOP Y CENNEN

Uned 4, Byd y Siopwr, Stryd y Gwynt, Rhydaman, SA18 3DN

LLYFRAU \* CRYNODDISGIAU \* CARDIAU

CREFFTAU \* FIDEOS \* C.D.ROMau \* CASETIAU

Telerau arbennig i ysgolion a chymdeithasau


**(01269) 595777** hywelbowen@googlemail.com



## Y SILFF LYFRAU

Llyfr difyr – delfrydol ar gyfer nosweithiau tywyll hir y gaeaf. Yn ddiweddar cyhoeddwyd nifer fawr o lyfrau newydd ar gyfer pob oed – dyma nodyn am bedwar ohonynt.

### Merêd – Hela'r Hen Ganeuon



Mae Dr Meredydd Evans wedi bod wrthi yn hela hen ganeuon ac alawon gwerin Cymru ers degawdau ac ym mis Rhagfyr cyhoeddwyd ei ddarganfyddiadau mewn cyfrol newydd *Hela'r Hen Ganeuon*. Mae ynddi hanes twf cylchgronau cerdd fel *Y Cerddor Cymreig* a'r *Perl Cerddorol* a oedd mor bwysig wrth gyhoeddi alawon traddodiadol a dod â hwy i lygaid y cyhoedd. Mae'r gyfrol yn dilyn hanes casglwyr caneuon o gyfnod Iolo Morganwg ac Ifor Ceri hyd at gyfraniad unigryw John Lloyd Williams ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae Merêd hefyd yn olrhain hanes sefydlu Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn 1906, a'r cecru a fu wrth wneud hynny. Dengys ddylanwad aruthrol eisteddfodau Cymru ar gasglwyr ac unawdwyr ein cerddoriaeth draddodiadol, fel eisteddfodau'r Fenni.

Mae *Hela'r Hen Ganeuon* yn gyfrol a fydd yn apelio at bawb sy'n ymddiddori yn nhraddodiad gwerin Cymru dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Mae ynddi ddyfyniadau o ganeuon gwerin cyfarwydd ac anghyfarwydd a cheir amrywiadau o'r un alaw gan wahanol gasglwyr, rhai ohonynt o'r llawysgrifau gwreiddiol.


Gan gofio mai ffrwyth llafur blynyddoedd o waith diflino Merêd a Phyllis yw *Hela'r Hen Ganeuon*, rhaid talu teyrnged i'w brwdfrydedd a'u gwaith ym maes cerddoriaeth werin ers hanner canrif a mwy. Bu'n gweithio fel darlithydd mewn prifysgolion yng Nghymru a'r Unol Daleithiau ac i'r B.B.C., yn ogystal â chyfrannu'n helaeth i'r byd adloniant fel rhan o Driawd y Coleg a chyhoeddi nifer fawr o erthyglau a llyfrau alawon gwerin. Ymddeolodd ef a Phyllis

dros ugain mlynedd yn ôl ac ymgartrefu yng Nghwmystwyth, Ceredigion. Ac yntau wedi cyrraedd ei nawdeg oed rhaid cydnabod cyfraniad unigryw Merêd i ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg.

Pris *Hela'r Hen Ganeuon* a gyhoeddir gan Y Lolfa yw £14.95.

### Lleoedd i'w gweld yng Nghymru

Ym mis Tachwedd fe wnaeth Y Lolfa ryddhau un o'r cyfrolau pwysicaf a mwyaf uchelgeisiol i gael ei chyhoeddi yn Gymraeg y ganrif yma. Mae *Cymru: Y 100 lle i'w gweld cyn marw* yn ffrwyth pum mlynedd o gydweithio rhwng yr hanesydd John Davies a'r ffotograffydd Marian Delyth. Yn ogystal â



fersiwn clawr meddal (£19.95) bydd Y Lolfa yn cyhoeddi argraffiad clawr caled cyfyngedig wedi'i arwyddo (£29.95).

"Dyma gyfrol werthfawr sydd yn cyfuno gair a llun gan ddau awdurdod yn eu meysydd arbenigol: yr hanesydd John Davies sydd yn rhannu ei stôr anhygoel o wybodaeth am hanes Cymru, a'r ffotograffydd Marian Delyth a deithiodd Gymru gyfan drwy bob tywydd, gan lwyddo i ddal awyrgylch hudolus y can lle dan sylw. Cyfrol i'ch rhyfeddu a'ch swyno a sialens odidog i unrhyw Gymro neu Gymraes gwerth ei halen."


### Cerddi Campus Caryl

Mae'r amryddawn Caryl Parry Jones wedi bod yn brysur yn barddoni unwaith yn rhagor. Mae ei chasgliad diweddaraf o gerddi, sydd yn bennaf ar gyfer plant, ar gael mewn cyfrol o'r enw *Siocled Poeth a Marshmalos*. Fel y disgwylir gan Caryl, mae'r cerddi yn hwyliog, yn ddoniol ac yn carlamu ar draws y tudalennau.

Mae ei champwaith yn tywys y darllenwr yn braf drwy fyd y dychymyg ac yn ymdrin â themâu sydd yn apelio'n fawr at blant. Cawn hanes Anifeiliaid Anhwylder, cerddi am Gar Mam ac am Gwpan Rygbi'r Byd.

Yn ychwanegu at y cerddi mae darluniau'r arlunydd talentog o Abergwyngregyn, Helen Flook. Mae'r lluniau llawn lliw yn cyfleu ystyr a digrifwch y penillion yn wych.

Mae *Siocled Poeth a Marshmalos* ar werth yn y siopau am £4.99. Y cyhoeddwy'r yw Gwasg Gomer.



### Hanes Tywysogion Cymru

Balchder, rhamant a chythrwfl. Dyna rai o'r delweddau sy'n dod i'r cof wrth feddwl am hanes Cymru, a'i thywysogion yn benodol. Wrth i ni gadw ffydd â'n hunaniaeth Gymreig, gallwn olrhain hanes ein harwyr a rhoi cipolwg ar arweinwyr gwrol ein gwlad, diolch i lyfr newydd Elin Meek, *Dathlu Tywysogion Cymru*.

Mae'r llyfr, sydd wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn cyflwyno holl gyfoeth a chyffro Oes y Tywysogion mewn ffordd eglur a difyr. Mae'n addas ar gyfer plant oedran cynradd ac uwchradd, ac yn cynnwys gweithgareddau hwyliog fel: llunio arfbais, darganfod achau eich teulu, creu catapwl, cadw dyddiadur fel un Gerallt Gymro a llunio cân i'ch arwr cenedlaethol.

Mae'n llyfr darllen difyr, llawn lliw sy'n cyflwyno hanes, dyddiadau a dathliadau, traddodiadau, chwedlau, cerddi a gweithgareddau, oll yn ymwneud â Thywysogion Cymru. Mae ynddo dros gant o ddelweddau lliw, yn ffotograffau, lluniau, mapiau a diagramau.


Gan gychwyn gyda hanes Cunedda Wledig (rhywbryd rhwng 370 a 450), mae'r llyfr yn ein tywys i arglwyddiaeth Rhodri Fawr gan sôn am bwysigrwydd cyfreithiau Hywel Dda, hanes Gwenllïan ferch Gruffudd ap Cynan, Ifor Bach Arglwydd Senghennydd, Yr Arglwydd Rhys, Llywelyn Fawr, Llywelyn ein Llyw Olaf, Owain Lawgoch ac Owain Glyndŵr. Hefyd cawn wybod sut y cawsom enwau fel Jones, Bowen a Powell; pam roedd beirdd a mynachod yn bwysig i'r Tywysogion, a pham na lwyddodd y Llychlynwyr i greu argraff ar Gymru.

Mae *Dathlu Tywysogion Cymru* gan Elin Meek ar gael nawr o'ch siop lyfrau lleol, am bris o £6.95. Y cyhoeddwy'r yw Gwasg Carreg Gwalch.



## ~ HYN A'R LLALL ~

### Y Bytholwyrdd - Bob Tai'r Felin



Pwy feddyliai y byddai cryno ddisg gan artist a anwyd bron i 140 o flynyddoedd yn ôl yn cael ei chyhoeddi nawr? Dyna'n union geir ar gryno ddisg Sain, **Bob Roberts Tai'r Felin**, sy'n dangos pwysigrwydd cerddorol, diwylliannol ac hanesyddol y melinydd a'r amaethwr o ardal Penllŷn.

Mae cryno ddisg o seiniau'r baledwr a'r canwr gwerin ar gael mewn siopau llyfrau Cymraeg. Mae nifer o'r traciau yn ymddangos ar gryno-ddisg am y tro cyntaf a dau drac yn gyfraniadau cwbl unigryw nas clywyd erioed o'r blaen. Wyres Bob o'r Chwilog ddaeth o hyd i hen recordiau ei thaid yn ei chartref ym Mhen Llŷn.

Ar y cryno ddisg ceir alawon a baledi bytholwyrdd fel *Moliannwn*, *Yr asyn a fu farw a Mari fach fy nghariad*. Mae rhai ohonynt wedi eu recordio'n fyw mewn Noson Lawen gydag adborth gwbl naturiol cynulleidfya yn mwynhau'r perfformiadau. Mae eraill yng nghwmni holwr yn trafod y caneuon, a chawn y wefr o glywed llais Bob ei hun yn siarad gan egluro cefndir ambell gân cyn bwrw ati i ganu.

Ni ddaeth Bob Tai'r Felin i enwogrwydd y genedl hyd nes iddo gyrraedd ei saithdegau, pan glywyd ei gyfraniadau ar raglen radio'r BBC *Noson Lawen*. Enillodd gystadleuaeth cân werin yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mangor ym 1931, ac yntau dros ei drigain oed. Bu'n diddori cynulleidfaoedd capeli, cymdeithasau ac eisteddfodau lleol fel unawdydd cyn hynny ac wedi ei fuddugoliaeth yn yr Eisteddfod fel aelod o Barti Tai'r Felin. Dyn ei filltir sgwâr oedd Bob Roberts, ond hefyd yn ddyn a gyrhaeddodd galon cenedl gyfan gydag ôl y pridd a'r fro wedi ei serio ddwfn ar ei lais a'i gymeriad.

Yn y casgliad newydd *Bob Roberts Tai'r Felin* ceir hanesion diniwed yr helbulon caru, y troeon trwstan a'r triciau yn ogystal â'r canu moesol gwerinol - y cyfan oll yn adloniant llwyr ac yn broc i'r cof.

Gyda thri thrac gan y baledwr John Thomas, Maesyfedw a pherfformiad gan fab Bob, Moi Tai'r Felin (Morus Roberts) ac Arthur D Jones - mae'n gasgliad cwbl unigryw.

### Calennig yn gyfan ... gymerwch chi wefan?

Bydd hi'n sicr o fod yn flwyddyn newydd dda i nifer o glybiau a chymdeithasau yng Nghymru eleni, wrth i wasanaeth ar-lein **Golwg 360** gynnig cyfle gwych iddynt ddatblygu gwefan yn rhad ac am ddim!

Mae'r cyfle unigryw yn dod wrth i'r gwasanaeth newyddion ar y we lansio elfennau newydd ar y safle. Un o'r rheiny yw 'Lle Pawb' sy'n rhoi cyfle i glybiau, cymdeithasau ac unigolion greu gwefan fach iddyn nhw eu hunain heb unrhyw gost!

Lansiwyd Golwg 360 ym mis Mai, ac ers hynny mae'r gwasanaeth newyddion wedi tyfu'n raddol ac erbyn hyn yn cyhoeddi mwy na 30 o storïau bob dydd ar gyfartaledd - gan gynnwys straeon hollol newydd a gwahanol.

Felly, os ydych yn awyddus i gael gwefan am ddim i'ch grŵp neu gymdeithas, Lle Pawb ar wefan [www.golwg360.com](http://www.golwg360.com) yw'r lle i chi. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Golwg 360 trwy ffonio (01570) 423 529 neu e-bostio [cymorth@golwg360.com](mailto:cymorth@golwg360.com)

### Chwilio am anrheg!

Ydych chi'n chwilio am anrheg a fydd yn siwr o blesio? Beth am roi cynnig ar **Bodlon** sef cwmni o safon o Lanarthne. Gallwch eistedd yn gyfforddus gartref a gwneud eich siopa ar-lein gyda help y cwmni.

Maent yn cynnig bwydydd, diodydd a nwyddau cegin Cymreig, y cyfan o safon uchel. Mae rhywbeth at bob poced a phob chwaeth.

Ar gyfer y dynion, awgrymir cawell i'r Anwydog yn cynnwys chwisgi Penderyn ymhlith pethau eraill neu beth am Du ac Aur, chwisgi Penderyn gyda chaws a bara ceirch a'r cyfan mewn cawell bren. Gellir hefyd brynu chwisgi mewn blwch deri hardd, blwch y gellir ei ail-ddefnyddio i wneud bocs pensiliau neu focs bwydo adar. I'r dirwestwr, mae byrddau caws llechen a dewis o gawsiau Cymreig.

I'r rhai sy'n byw yn y gegin, mae llu o nwyddau gwreiddiol, Cymreig, yn lieiniau sychu llestri a ffedogau, bwcedi cadw tŷ, llestri o bob math a bwydydd a diodydd i dynnu dŵr o ddannedd.

I Mam, beth am hoe ac Amser Te; basged yn cynnwys te a choffi, mêl, catwad a chacen neu Hambwrdd Te. A gan nad oes amser gwell i ddweud diolch na heddiw beth am ychwanegu mwg newydd sbon.

Am ragor o syniadau, manylion a phrisiau ewch at wefan: [www.bodlon.com](http://www.bodlon.com)



### Pen-blwydd Cwmni Opera

Mae'r tocynnau ar gael yn awr i berfformiad **Cwmni Opera Ieuenctid Caerfyrddin** o "Beauty and the Beast", cynhyrchiad sy'n dathlu 30ain pen-blwydd y Cwmni. Yn ddiweddar y rhyddhawyd yr hawl i berfformio yr opera hon i gwmniau amatur, a'r Cwmni Opera Ieuenctid yw'r un o'r rhai cyntaf i wneud hynny. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cwmni wedi sicrhau y setiau a'r gwisgoedd a ddefnyddiwyd gan y Cwmniau proffesiynol. Mae hwn felly yn gyfle unigryw i weld sioe o'r fath yn lleol yn Theatr y Lyric.

Mae 80 o bobl ifanc eisoes yn ymarfer, a bydd y cyfan yn sialens enfawr i'r Cyfarwyddwr, Adrian Rowlands a'i dîm cynhyrchu. Mae cyllideb y fenter yn sylweddol, ac mae'r Cwmni yn ddyledus dros ben i'w noddwyr, megis Western Power a chwmniau lleol eraill, am eu cefnogaeth hael.

Perfformir y sioe i blant ysgolion yn ystod boreau 10 - 12 Chwefror am bris gostyngedig. Mae prifathrawon yr ysgolion eisoes wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r cyfle arbennig hwn.

Perfformir y Sioe i'r cyhoedd yn ystod wythnos hanner tymor, 13 - 20 Chwefror 2010.

Mae'r tocynnau ar werth yn awr yn y Lyric am £12 a £10 i'r henoed a phlant - Ffôn 0845 2263510.

I dathlu ein pen-blwydd, fe geir perfformiad Gala arbennig ar Nos Sadwrn 13 Chwefror 2010, tocynnau yn £20 yr un, yn cynnwys lluniaeth. Yn ogystal fe fydd tocynnau ar werth am £12 a £10.

Y mae galw mawr bob amser am docynnau Sioeau Cwmni Opera Ieuenctid Caerfyrddin.

Archebwch yn brydlon a mwynhewch noson o safon aruchel a mwynhad pur.



## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL GYNRADD MAESYBONT

Mae plant Ysgol Gynradd Maesybont wedi dwlu ar straeon a hanesion am Twm Siôn Cati. Felly dyma eu hathrawes fro Mrs. Gaenor Watkins yn ysgogi'r syniad a mynd â nhw i ardal Twm yn Llanymddyfri. Roedd hi'n ddiwrnod sych ac fe fu'r plant yn dringo'r castell, yna gwirioni'n llwyr ar weld a chlywed Twm Siôn Cati yn 'siarad' yn y Ganolfan Treftadaeth. Cafwyd cinio yng nghaffi'r West End cyn dechrau ar daith i Randir-mwyn. Yno cawsom gwrdd ag Alun a Carol Jones a Huw Jones, Pantllechddu, a oedd yn mynd i'n harwain i ogof Twm. Roedd y daith i gopa mynydd Dinas yn fendigedig a'r afonydd Tywi a'r Doethie yn byrlymu yn y gwaelodion. Roedd y plant wedi dod â ffllachlampau ac roedd pawb wrth eu bodd yn gwasgu i mewn i guddfan Twm cyn dechrau ar y daith yn ôl i'r bws ac yn ôl i'r ysgol wedi cael diwrnod ardderchog. Diolch yn fawr i Alun Jones am ein tywys ac am rannu ei wybodaeth ac i Carol a Huw am wneud ein diwrnod yn un cofiadwy dros ben.



*Plant Ysgol Maesybont yn ymweld ag Ogof Twm Siôn Cati.*

### YSGOL GYNRADD RHYS PRICHARD, LLANYMDDYFRI

Llongyfarchiadau i blant yr ysgol ar ennill y wobr gyntaf a'r ail wobr yng nghystadlaeth "Seren Nadolig" yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd. Mwynheuodd plant blwyddyn chwech eu hymwelid â'r sioe yn fawr iawn.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr ysgol yn Ysgol Gyfun Pantycelyn ar 10 Rhagfyr. Canwyd carolau gan y plant a'r gynulleidfa, a'r prif gymeriadau oedd disgyblion blwyddyn chwech. Diolch i'r "Gymdeithas Rhieni ac Athrawon" am ei help gyda'r mins peis.

Braf oedd cael cwmni "Eeyore", yr asyn, ar iard yr ysgol cyn y Nadolig. Diolchodd perchnogion "Ymddiriedolaeth Ceffylau Llust" am gyfraniad ariannol y staff tuag at yr achos. Cafodd y plant i gyd gyfle i ganmol ac edmygu'r asyn. Gofynnodd y plant lawer o gwestiynau pwrpasol, felly roedd yn ymweliad addysgiadol iawn.

Mewn seremoni yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin derbyniodd Sara Davies ac Agatha Devlin, Blac Cyfnod 3, Gwobr Ysgolion Iach oddi wrth Geraint Bowen, Swyddog Gwella Ysgolion Cynghor Sir Gâr.

Hyfryd oedd gweld Ioan Lewis, Mared Lewis, Jessyca Morgan a Siôn Thomas o'n hysgol ni ar lwyfan y cynhyrchiad poblogaidd "Seren Bethlehem" yn Llety Cadog adeg y Nadolig. Diolch blant am ein cynrychioli mewn digwyddiad unigryw.


Daeth y tymor i ben gyda'r parti Nadolig blynyddol – digonedd o ddanteithion, cerddoriaeth ac ymweliad caredig yr hen foi ei hun a'i sach drom.

### YSGOL GYNRADD FFAIR-FACH



*Plant a staff Ysgol Gynradd Ffair-fach yng Ngŵyl y Goeden, Capel Salem Heolgaled.*

### YSGOL GYNRADD LLANSAWEL



Bu Caleb, Jordan, Cerian a Paige yn mwynhau yng ngwersyll yr Urdd Llangrannog cyn y Nadolig.

Cynhaliwyd perfformiad o sioe Nadolig Ysgol Llansawel sef 'Y Seren Fawr' yn neuadd y pentref ac agorwyd y ffair aeaf yn swyddogol ar ôl y sioe Nadolig.

Mwynhaodd disgyblion yr ysgol frecwast arbennig wrth ddathlu diwrnod Plant Mewn Angen. Casglwyd £334.29 ar gyfer yr elusen trwy gynnal stondinau, chwarae gemau a cherdded o gwmpas y pentref.

Bu'r disgyblion yn ymwled â Siôn Corn yn Abergwili a chawsant lawer o hwyl a sbri ar y tren bach!



*Plant Ysgol Llansawel gyda'u hanrhegion ar ôl i Siôn Corn ymweld â'r ysgol yn ystod parti Nadolig yr ysgol.*



## ~ ADRAN YR YSGOLION ~

### YSGOL GYNRADD LLANGADOG

Yn gynharach yn y tymor cawsom wybod fod y gyflwynwraig leol - Heledd Cynwal, wedi gosod her i'r gymuned.

Ei syniad oedd i greu perfformiad o ddrama'r geni gan ddod â holl aelodau'r gymuned at ei gilydd i greu cyngerdd fawreddog.

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i geisio helpu'r prosiect i fod yn llwyddiannus. Mae rhai ohonom wedi cael rhannau unigol yn y sioe ac eraill yn perfformio fel rhan o gôr neu gyda gweddill y dosbarth.

Roedd pawb yn edrych ymlaen at weld eu hunain a'u ffrindiau ar y teledu bob nos Sul a doedd neb yn gallu aros tan y perfformiad ar 13 Rhagfyr.

Gobeithio y cawsoch fwynhad o wyllo'r uchafbwyntiau fel rhan o'ch dathliadau ar noswyl y Nadolig.

gan **Hannah a Megan**

### YSGOL WIRFODDOL LLANFYNYDD

Cafodd y plant yn Ysgol Wirfoddol Llanfynydd ddiwrnod llawn sbort a sbri wrth iddynt wisgo dillad smotiog a streipiog ar gyfer diwrnod Plant Mewn Angen. Cafwyd hwyl wrth gasglu ceiniogau a'u gosod mewn rhes hir o gwmpas neuadd yr ysgol. Llwyddwyd i godi £70 tuag at yr elusen. Da iawn blant!

Daeth llwyddiant ysgubol i'r ysgol eleni yn Eisteddfod Abergorlech, wrth i bob plentyn a fu yno ddychwelyd â gwobr - tipyn o gamp. Gwych!

Llongyfarchiadau am y llwyddiannau canlynol:

Unawd Bl 1/2 - 1af Ela Strudwick; 3ydd Tomos Roberts

Adrodd Bl 1/2 - 1af Ela Strudwick; 2il Tomos Roberts

Unawd Bl 3/4 - 1af Gwen Strudwick

Adrodd Bl 3/4 - 2il Gwen Strudwick

Adrodd Bl 5/6 - 1af Megan Lewis; 2il Dylan Thomas

Creu Logo i ddathlu 50 mlynedd o Eisteddfod Abergorlech: 1af Bertie Davies; 2il Megan Lewis; 3ydd Elin Worsley

Parti Unsain - 1af Parti Lowri, Ysgol Llanfynydd

Adrodd dan 6 (Agored) - 2il Gwenno Roberts

Deuawd dan 16 (Agored) - 1af Bethan Davies a Lowri Thomas

(Gweler llun o'r cystadleuwyr ar dudalen 28.)

Agorwyd y Ffair Nadolig gan y Parch. Philip Johnes (Cadeirydd y Llywodraethwyr). Codwyd swm sylweddol eleni eto tuag at brynu adnoddau. Diolch i bawb - rhieni a chyfeillion a'n cefnogodd eleni eto.

Bu'r disgyblion yn brysur yn creu addurniadau arbennig, wedi'u gwneud allan o ddefnyddiau wedi'u hailgylchu ac addas i'r adar eu bwyta ar gyfer y goeden Nadolig y tu allan i siop gymunedol Dryslwyn. Diolch iddynt am y gwahoddiad a gobeithio i'r adar fwynhau'r wled!

Cafodd y plant bach fwynhad eithriadol wrth ymweld â Pharc Gelli Aur yn ddiweddar. Yno cawsant gyfle i fwydo'r ceirw a chwrdd â Siôn Corn - am gyffro! Bu plant yr ysgol gyfan hefyd yn gweld ffilm yn y sinema yn Llanelli cyn ymweld â Pharc y Scarlets ar ddiwedd y tymor. Diwrnod cofiadwy a phleserus i bawb.

Cynhaliwyd gwasanaeth cymunedol yn Eglwys y plwyf ar 13 Rhagfyr. Cafwyd gwledd wrth i bawb ddathlu'r wyl. Cafwyd perfformiad graenus a difyr yn ôl yr arfer gan blant yr ysgol. Diolch iddynt hwy ac i'r holl staff am eu gwaith diflino a'u hymroddiad cyson.

### YSGOL GYNRADD TALYLLYCHAU

Ar y dde, gwelir llun y plant a wnaeth godi arian, sef £66, tuag at Apêl Plant Mewn Angen 2009. Codwyd yr arian drwy adael i'r plant fynychu'r ysgol gan wisgo dillad o'u dewis hwy.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau Nadolig ein hyssgol ar Nos Fawrth, 1 Rhagfyr i oleuo ein coeden

Nadolig eleni. Cynhaliwyd y gwasanaeth yma i gyd-fynd gyda phen-blwydd yr ysgol yn 135 oed i'r union ddydd a dyddiad. Ar ôl goleuo'r goeden, fe gynhaliwyd cyngerdd yn yr ysgol, a bu disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion yn cymryd rhan, yn ogystal â Chôr Meibion Dinefwr. Dechreuodd y noson gan oleuo'r goeden yn fyw ar raglen Wedi 7 ar S4C. Fe oleuwyd y goeden gan gyn-ddisgybl yr ysgol, yr hynafgwr poblogaidd Jac Roberts, ac fe fu cyflwynwyr y rhaglen yn holi'r prifathro a rhai o'r plant yn fyw ar y rhaglen. Fe greuwyd erthygl ar y pentref a'r ysgol hefyd.

Fe wnaeth y rhaglen Wedi 7 gloi gyda'r plant yn canu ar lwyfan yr ysgol yn fyw. Wedi i'r rhaglen orffen, fe gynhaliwyd gweddill



e i n gwasanaeth /cyngerdd yn yr ysgol.

Ar fore Sul, 13 Rhagfyr fe wnaeth yr

Adran Iau (Blwyddyn 3, 4, 5 a 6) adael Ysgol Tallyllychau am 8 yn y bore ar ein hymweliad â Llundain o dan oruwchwylliaeth Mr Wood, Miss Walker, Miss Davies a Mrs Roberts. Ar ôl cinio gan gyrraedd Llundain, gwnaethom fynychu perfformiad llwyfan o'r sioe *Lion King* yn theatr y Lyceum - talwyd am y tocynnau gan PTA yr ysgol (£1,200).

Y noson honno, arhosom ni mewn canolfan addysg ar gyrion dinas Llundain. Wedi brecwast yn fuan iawn ar y Dydd Mawrth, gadawson y ganolfan am 7:45am, gan deithio yn ôl tuag at Lundain. Treuliwyd y bore yn ymweld â'r Tŷ Cyffredin, a chynhaliwyd gweithdy ar ein cyfer. Yn ystod y gweithdy hwn, daeth Adam Price (Aelod Seneddol) i'n cwrdd ac i ateb



cwestiynau'r plant. Wedi cinio, ymwelwn ni â chanolfan Madame Tussauds, lle bu'r plant wrth eu boddau yn gweld a thynnu lluniau eu

harwyr gyda chamerau digidol. Ar ôl deuddydd prysur a chyffrous, dechreuom yn ôl am Dalylllychau, a chyrhaeddodd yn ôl yn hwyr ar y nos Fawrth.



## LES MISÉRABLES - YSGOL GYFUN TRE-GÎB



### Cynhyrchiad diweddaraf Ysgol Tre-gîb yn cyrraedd yr entrychion

Bu cynhyrchiad Ysgol Uwchradd Tre-Gîb o'r sioe gerdd *Les Misérables*, yn seiliedig ar nofel Victor Hugo, yn llwyddiant ysgubol. Diddanwyd cynulleidfaoedd o dros 2000 o bobl mewn pedwar perfformiad gwfreiddiol. Yn wir, derbyniodd y 300 a mwy o ddisgyblion a fu'n cymryd rhan gymeradwyaeth haeddiannol a brwd ar ddiwedd pob noson.

O ganlyniad i gyfarwyddyd cerddorol medrus Mr Conway Morgan, a chynhyrchu celfydd Mr Richard Tunley a'r Dirprwy Reolwraig, Mrs Crissley Jones, cafwyd perfformiadau cerddorol grymus ac actio bywiog a theimladwy gan grŵp o bobl ifanc talentog. Rhaid talu teyrnged arbennig i'r prif actorion am eu lefel uchel o broffesiynoldeb ac aeddfedrwydd. Yn yr un modd, cydnabyddir cyfraniadau nifer fawr o staff a disgyblion a fu'n gweithio'n ddiwyd y tu ôl i'r llwyfan ac fel aelodau o'r gerddorfa hynod safonol.

Profodd y perfformiad o *Les Misérables* yn un bywiog a heriol a fydd yn aros yn hir yng nghof y rhai hynny a fu'n ddigon ffodus i'w weld. Perfformiad campus sydd yn cyfoethogi ymhellach y seiliau cadarn ac arloesol sydd eisoes yn bodoli ym myd y Celfyddydau Perfformio yn Ysgol Tre-Gîb. *Lluniau: John Davies.*







## O GWMPAS BRO DINEFWR



Tîm hoci dan 14 oed Sir Gâr a fu'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Timau Hoci Merched dan 14 oed De Cymru.



Megan Jones ac Edith Lewis yn gwylio Lyn Thomas yn arwyddo ei lyfr ar hanes Llanfynydd ar noson y lansiad.



Holly Freeman, Abergorlech yn hyfforddi Dawns y Canoldir yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn Llanarthne.



Rhai o'r enillwyr yn eisteddfod hynod lwyddiannus Pumsaint.



Plant Ysgol Wirfoddol Llanfynydd a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Abergorlech.

**BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR Y LLOFFWR**